

ECO'R WYDDFA

Rhif 265

MAWRTH 2000

Pris 40c

Pen-Blwydd Hapus

Emyr Roberts yn sôn am barti go arbennig yn Waunfawr

Roedd Gwynn Davies, Cadeirydd Antur Waunfawr, yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed ar Ionawr 19. Heb yn wybod iddo, roedd parti wedi cael ei drefnu ar ei gyfer yn festri Capel Bethel. Ond dyna gamp oedd cadw'r cyfan yn gyfrinachol tan y noson fawr! Dwn i ddim sut y llwyddodd pawb i wneud yn siŵr na fyddai Gwynn yn amau fod dim ar droed.

Noson y parti roedd y festri yn llawn o ffrindiau a theulu'r gŵr a wnaeth gymaint dros yr Antur. Roedd yntau wedi cael ei berswadio i fynychu cyfarfod o gyfarwyddwyr yr Antur, ac wedi ei gyfeirio tua'r festri ar ryw berwyl. Pan gerddodd i mewn cododd pawb a bloeddio canu 'Pen-blwydd Hapus' iddo. Roedd yr olwg ar ei wyneb yn brawf pendant nad oedd ganddo'r syniad lleiaf am y trefniadau.

Un o'r pen-cynllwynwyr oedd Rob 'Tan y Fron' ac ef a gyflwynodd drefn y noson i Gwynn. Roedd ei gyd-gantorion o Gôr y Waun yno i ganu dau o'i hoff ddarnau — er bod yr adran fas rhywfaint yn wannach nag arfer (yn ôl Mr Davies!). Yna rhannodd John Gwynedd rai sylwadau ar Gwynn fel Mr Fixit yr Antur gyda'i ddawn o dderbyn addewidion am arian o bob tu, ynghyd â rhoi'r bai arno am ei hudo i dafarnau ('scarcely believe' John...). Cafwyd talwrn y beirdd gyda dau dîm o dan gapteiniaeth Dafydd Iwan a Mei Mac, a'r meuryn ei hun Gerallt Lloyd Owen yn cadw trefn arnynt gyda'i ffraethineb arferoll! Y trefnau oedd pennill i Waunfawr 3000 (er y derbyniwyd 2 bryddest 'chwedl Gerallt), cwpled i'r Antur ac englyn i gyfarach Gwynn, a chafwyd cynnyrch wrth fodd y meuryn a phawb arall ohonom yn wir.

Canodd Idris (Pigyn Clust) ddarn swynol ar ei ffidil. Cyflwynodd Pat anrheg ar ran yr Antur i Gwynn a chyflwynwyd taww hardd o flodau i Mrs Davies gan Annwen. I ddiweddu cafwyd

gair gan Dafydd Iwan (yn cynnwys atgof o Gwynn yn mynegi ei fod yn dyfaru ei adeg fel clerc i'r ynadon, yn dyfaru na fyddai wedi carcharu mwy ar brotestwyr Cymdeithas yr Iaith... am mai dyna oeddynt yn eu ddymuno mewn gwirionedd) ynghyd â'r gân werin Titrwm Tatrwm. 'Does yr un parti'n gyflawn heb wledd a chacen a doedd hwn yn ddim gwahanol. Roedd clamp o gacen gan Ann 'Goat' Llanwnda a chriw'r Antur wedi bod yn brysur tu hwnt yn coginio a darparu'r myrdd o ddanteithion eraill — digon i lenwi un ochr o'r festri.

Bobol am noson dda! Llund capel o hwyl wrth i ni ddal ar y cyfle i ddangos ein gwerthfawrogiad o ŵr arbennig iawn. Fel y dywedodd Dafydd Iwan, mae athrylith Gwynn i'w weld yn y modd y mae wedi gwireddu ei freuddwyd yn Antur Waunfawr ac yn fwy na hynny yn ei waith diflino, ysbrydoledig a diymhongar yn ei gymdogaeth. Ymlaen am y nawdeg rŵan!

Gwyliau Hapus



Dau ddyn dewr! Am bump o'r gloch ar fore oer o Chwefror roedd Gareth Jones a Iolo Roberts yn eu 'shorts' wrth giât Ysgol Brynrefail. Ond ymhen deuddeg awr byddai'r ddau yn Florida gyda'r criw a enillodd wyliau'r Daily Post eleni.

Cewch hanes y daith yn llawn y mis nesaf, ond mae'n dda dweud bod pawb wedi dod adre'n ddiogel. Trowch i dudalen 12 i gael llun ecscliwsif o'r criw'n cyrredd 'nôl yng nghanol y glaw ymhen yr wythnos.



ECO'R WYDDFA

Rhif 265
MAWRTH 2000
Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon
Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com
GOLYGYDD CHWARAEON
Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115
DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)
FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925
TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)
TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)
TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)
TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)
TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Bwthyn Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Maelyn (675384)
NANT PERIS: Ann Gumberton,
Gwastadrant (870356)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Gygharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss AAWAN Parry,
Ael-y-Bryn (872278)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (850570)

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAWRTH 20
Daunyd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MAWRTH 30
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu A
EBRILL	MAWRTH 20	MAWRTH 30	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands
MAI	EBRILL 17	EBRILL 27	DEINIOLEN	Mr W O Roberts
MEHEFIN	MAI 22	MEHEFIN 1	BRYNREFAIL	Dilys Wyn Morris
GORFFENNAF	MEHEFIN 19	MEHEFIN 29	BETHEL	Mr Geraint Elis
AWST	-	-	-	-
MEDI	AWST 28	MEDI 7	DINORWIG	Miss Marian Jones
HYDREF	MEDI 18	MEDI 28	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans
TACHWEDD	HYDREF 16	HYDREF 26	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans
RHAGFYR	TACHWEDD 20	TACHWEDD 30	CAEATHRO	Mr Clive James

Annwyl Olygyddion,
Mae Cyngor Cymuned Llanberis yn awyddus i ddarganfod yr enw Cymraeg cywir am y ffordd sy'n arwain o'r Stryd Fawr, Llanberis i'r groesfan ar draws y ffordd fawr ger y lanfa. Ers tua chwe blynedd mae'r enw *Honey Farm Lane* wedi bod yn ymddangos yn achlysurol mewn dogfennau swyddogol, hyd yn oed gan Gyngor Gwynedd. Mae'n hawdd deall pam fod yr enw hwn wedi ei ddefnyddio gan fod Fferm Fêl yr Wyddfa wedi ei lleoli ar y lôn.

Cyn belled ac y gellir darganfod, nid oes enw 'swyddogol' i'r lôn hon. Mae rhai o drigolion y pentref yn ei hadnabod fel Lôn Plisman, ac eraill fel Lôn Doman. Tybed a oes gan unrhyw un o drigolion presennol neu rai o gyn drigolion Llanberis syniad beth yw enw cywir y lôn? Mae'r Cyngor yn awyddus i anfon yr enw Cymraeg cywir i Gyngor Gwynedd er mwyn rhoi diwedd ar yr hyn sydd wedi cychwyn arferiad o'i galw wrth yr enw Saesneg.

Gelir cysylltu â'r Clerc neu ag unrhyw aelod o'r Cyngor gyda gwybodaeth.

Yr eiddoch ar ran Cyngor Cymuned Llanberis,

Dafydd Whiteside Thomas
(Clerc)
Bron y Nant
Llanrug
Caernarfon
Ffôn: 01286 673515

Annwyl Olygydd,
Tybed a allaf ddeisyfu eich cymorth fel darllenwyr ar fater sydd bron yn anhygoel.

Rai blynyddoedd yn ôl roeddwn ar wyliau ger y Rhine yn yr Almaen — a hynny yn fuan ar ôl i mi golli chwaer a brawd yn agos i'w gilydd.

Roedd eglwys reit fawr ar draws y ffordd o'r gwesty, a byddwn yn troi i mewn yno reit aml ac yn teimlo fy mod yn cael rhyw nerth bob tro yr awn i mewn.

Ymhen dwy flynedd penderfynodd y gŵr a minnau fynd i'r un man am wyliau drachefn a meddyliais yr hoffwn wneud rhywbeth bach i ddangos fy ngwerthfawrogiad.

Un o fy hoff emynau i yw: 'Yn wylaidd plygu wnawn I Frenin yr holl fyd . . . ' o waith y diweddar Gwilym R. Jones. Cefais gyfieithiad Saesneg gan Dewi Jones, Benllech ac un Almaeneg gan Dilys Jones, Moelfre. Cefais eu rhoi ar femrwn ynghyd â'r dôn Penparc, a'u fframio yn gelfydd yng Nghemaes, Môn.

Cael caniatâd parod teulu Gwilym R. Jones ac yna trwy gymorth ychydig Saesneg gŵr y gwesty yn yr Almaen, cael caniatâd y Tad oedd mewn gofal am yr eglwys a'r mynachdy iddo dderbyn y memrwn i'w arddangos o fewn muriau ei fynachdy.

Mynd a'r memrwn i'r Almaen ar fws Caelloi, a'r criw i gyd yn troi i mewn i'r eglwys a chael

gwasanaeth byr a chanu yr emyn yn Gymraeg cyn i'r Tad ei dderbyn. Erbyn hyn mae yn cael ei arddangos gyda rhai o luniau gwerthfawr yr eglwys.

Gwnaeth ffrind frodwaith gelfydd iawn o'r memrwn ar glustog a'i roi yn anrheg i mi. Bûm o gwmpas amryw o fudiadau ym Môn yn dweud y stori uchod gyda llawer o luniau a'r glustog ayyb.

Wel, dyma neges y truth uchod:

Gofynnodd ffrind i mi, sef y ddiweddar Mrs Megan Williams, Ty'n Rhos, Rhosbodrual a gawsai fenthg y 'stwyff' i gyd iddi hi gael rhoi sgwrs am y digwyddiad mewn cyfarfod yng Nghapel Seilo (rwy'n meddwl) Caernarfon. Aeth Megan yn wael ac aed â hi i'r ysbyty ac ni ddaeth yn ôl. Mae'r teulu wedi fy sicrhau na welwyd gorllyw o'r lluniau na'r glustog ar ôl iddi fynd.

Tybed a allai rhywun roi unrhyw oleuni ar y mater — a fu Megan yn rhoi sgwrs i ryw gymdeithas? Tybed a oedd hi wedi rhoi eu benthyg i rywun arall? A oes rhywun wedi eu gweld yn rhywle?

Buaswn yn dra diolchgar am unrhyw wybodaeth. Nid oes fawr o werth ariannol iddynt — ond mae gwerth sentimental mawr ynddynt i mi.

Gyda diolch,

Yn gywir
Morwenna Williams
Graig, Marianglas
Ynys Môn LL73 8PF

NANT PERIS
Ann Gumberton, Gwastadrant
Ffôn: (01286) 870356

DIOLCH. Dymuna Eryl a Matt ddiolch am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu

dyweddiad. (Cerrig y Drudion, Nant Peris)

GOHEBYDD. Mae angen gohebydd pentref yn Nant Peris gan fod Ann Gumberton yn dymuno rhoi'r gorau i'r gwaith. Diolch iddi am ei gwaith ers tair blynedd. Cysylltwch â'r golygyddion os gallwch ein helpu. (Goli)

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes
a physgod.
Offer pysgota



Molchi, cribo a chipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

DIOLCH
Dymuna Haf o Buarthau, Llanrug ddiolch i'r rhai hynny o drigolion Bro'r Eco sydd wedi cyfrannu tuag at gronfa y Nofio Noddcdig a wnaeth yn ddiweddar.
Aeth Haf, ynghyd â dwy o'i chyd-weithwyr o Gyngor Gwynedd, i gyflwyno sic o £1,500 i Uned Alaw, Ysbyty Gwynedd Bangor, lle y defnyddir yr arian i brynu tair o gadeiriau esmwyth arbennig ar gyfer y cleifion yno. Diolch o galon i chwi am eich haelioni.

Dyffryn Peris a'r Cylch 'Am y Gorau'

Yn gynnar ddydd Sadwrn, 29 Ionawr, aeth dau lond bws o ddoniau Dyffryn Peris ynghyd â'u cefnogwyr i stiwdio HTV yng Nghroes Cwrlwys, Caerdydd i gymryd rhan mewn cyfres deledu sydd eisoes wedi cychwyn ar S4C — 'Am y Gorau'. A dweud y gwir, roedd hi'n rhy gynnar i aelod TRYDANOL o Gôr Meibion Dyffryn Peris: ond dyna fo, efallai mai cloc TRYDAN oedd i fod i'w ddeffro!

Ar ôl ymarfer yn y pnawn, cafodd y rhaglen ei recordio gyda'r nos. Yn cynrychioli Dyffryn Peris roedd Côr Meibion Dyffryn Peris a Mari Wyn (Llanberis) yn canu cân allan o sioe gerdd. Cafwyd deuawd cornet gan Arwel Williams a Jenny Lynne Morris (Deiniolen), ac unawd piano gan Sian Wyn Rees (Caernarfon). Cafwyd eitem gan gôr plant a lluniwyd trefniant blodau arbennig iawn gan Pat, Crefftiau Cae Coch (Llanberis).

Hefyd, cafwyd cystadlu ar y pryd — fel cwblhau limrig. Roedd yna gystadleuaeth sgorio goliau, gyda Gwilym Evans yn gôl Dyffryn Peris a Michael Griffiths yn saethu tuag at gôl Llanarth. Ieuan Morris (Deiniolen) wnaeth gynrychioli Dyffryn Peris yn y gystadleuaeth 'carioci' ac er mai TRYDANWR yw Dafydd Hughes wrth ei alwedigaeth, bu'n rhaid iddo fo newid olwyn car!

Er mai colli o drwch blewyn a wnaeth tîm Dyffryn Peris yn erbyn tîm Llanarth, cewch farnu'r cystadlu drosoch eich hunain pan ddarlledir y rhaglen ar nos Sadwrn ar S4C. Cydlynodd tîm Dyffryn Peris oedd Annette Bryn Parri a rhoddwyd gwobr o £500 tuag at apêl Eilir Williams, Deiniolen. Dymuna rhieni Eilir, Mr a Mrs Dafydd Wyn Williams, 1 Pentre Helen ddiolch yn fawr iawn i'r cystadleuwyr am eu haelioni.

Cael Blas ar Fwyd Dudley

Cafodd bachgen ifanc ifanc o Lanberis, sy'n ffan mawr o'r cogydd Dudley, gyfle i'w gyfarfod mewn sesiwn goginio arbennig yn siop Tesco, Caernarfon yn ddiweddar.


Roedd Shane Jones (6 oed) a'i chwaer Kimberley (4 oed) sy'n ddisgyblion yn Ysgol Dolbadarn, wedi teithio yr holl ffordd i Gaernarfon gyda'u mam, Wendy, i weld Dudley yn coginio. Roedd y ddau wedi gwirioni o gael y cyfle i gyfarfod â Dudley, ac i flasau dipyn o'r pryd bendigedig a oedd wedi ei baratoi gan ddefnyddio bwydydd Cymreig.

'Mi roedd yn braf eu gweld yn mwynhau cwmni Dudley, ac

rwy'n siŵr eu bod wedi mwynhau's samwn blasus a baratodd,' meddai llefarydd ar ran S4C. 'Diolch i bawb yn Tesco Caernarfon am y croeso a diolch arbennig i bawb wnaeth ddod draw i weld Dudley.'

Mae cyfres ddiweddaraf Dudley yn cael ei darlledu ar hyn o bryd ar S4C ar nosweithiau Llun, a bydd cyfres newydd gan y cogydd talentog yn cyrraedd y sgrin fach yn gynnar yn y flwyddyn 2001.

Mae Dudley ar daith o amgylch siopau Tesco Cymru. Trefnwyd y daith gan S4C, ac fe gynhyrchwyd cardiau rysait arbennig sy'n cael eu dosbarthu yn ystod y daith.



Cofiwch gael eich tocyn

Bydd Cyngor Gwynedd yn dosbarthu tocynnau teithio rhad eleni eto. Mae trefniadau wedi eu gwneud i'w dosbarthu ym mhentrefi'r fro ar y dyddiadau isod. Cofiwch fanteisio ar y cynnig hwn os oes gennych hawl i'r tocyn. Bydd yn golygu cryn arbediad ar bris arferol teithiau bws. Mynnwch eich tocyn.

CYNLLUN GODDEFIAD TEITHIO 2000 / 2001 DOSBARTHAD TOCYNNAU BWS A THREN

PENTREF	DYDDIAD	AMSER	SAFLE
DINORWIG	MAWRTH 22	9.30 - 10.00	Canolfan Dinorwig
CWM Y GLO	22	10.15 - 10.45	Yr Ysgol
PENISARWAUN	22	11.00 - 11.45	Naudd yr Eglwys
BRYNREFAIL	22	12.00 - 12.30	Festfr Capel
DEINIOLEN	22	2.00 - 3.30	Y Llyfrgell
NANT PERIS	23	9.30 - 10.00	Capel Rehoborth
LLANRUG	23	10.15 - 12.15	Hafan Elen
LLANBERIS	23	2.00 - 4.00	Angorfa, Well Street
WAUNFAWR	24	9.30 - 11.00	Y Ganolfan
BETHEL	24	11.15 - 12.30	Naudd y Pentref

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



Safle Ailgylchu Llanrug

Mae safle ailgylchu Llanrug wedi symud i faes parcio Tafarn Penbont
ailgylchwch eich
gwydr . papur . caniau
yno

Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd
(01248) 355 112

Mewn partneriaeth â Cyngor Gwynedd

www.anturwaunfawr.org



Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

GEMINI SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Patrol neu Disel
Carb. neu Chwistrellad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559

O SIAMBAR SELWYN

John Cefn Bach (parhad)

Mae hanes teulu Cefn Bach yn parhau y mis yma. Yn y rhan gyntaf a ymddangosodd y mis diwethaf fe fu gwall teipio — gwall oedd yn newid ystyr rhan o'r stori'n llwyr. Dyma'r paragraff fel yr oedd o i fod:

Y cof cynta' sy' gen i o John ydi'r diwrnod y buom ni yn chwarae c'nebrwn. Mynd yr oeddau ni yn un rhes o hogiau, gan ddilyn ein gilydd yn barchus drist i gladdu rhyw druan dychmygol mewn hen focs sgidia. Ceir c'nebrwn oeddau ni, ond mi lyncodd John ful gan brotestio — 'Dwi ddim yn chwarae os na cha i fod yn hers.' Wrth gwrs o'r foment angladdol honno fe gafodd John yr enw barddol — 'John Hers' — enw a achosodd gryn boendod i'w fam. 'Dwi'n methu dallt pam rydach chi'n galw John bach 'cw yn John Hers,' meddai, 'hen enw gwirion.' Ymddiheurwn am y gwall.

Roedd Bob Dan o natur yr un mor wyllt â'i fab, a dyna pam y bydden ni hogia direidus Bethel yn tueddu i gnocio drws Cefn Bach yn amlach na thai eraill y pentra, oherwydd mi fyddai gan Bob Dan yr egni i redeg ar ein holau drwy'r gyda'r nos. Roedd tap dŵr Cefn Bach oddi allan i'r tŷ, ac ar noson rewlyd, mi fyddai'n arferiad ganddon ni droi'r tap ymlaen, gyda'r canlyniad y byddai 'na lyn o rew o flaen drws Cefn Bach pan ruthrai John a'i dad o'r tŷ i ddal y trŵn chwarel yn y bore. Wrth gwrs, tydi rhedeg yn wyllt ar rew hefo sgidia-hoelion-mawr cyn i'r dydd wawrio ddim yn beth doeth i ddau go drwsgwl ei wneud.

Ond Bob Dan gafodd y gair ola. Roedd o wedi cuddio yn nhalcen y tŷ un noson rewlyd hefo tywel gwlyb i ddisgwyl y giang ohonom oedd yn dod adra o'r YMCA. Oherwydd y tymheredd roedd y tywel gwlyb wedi rhewi'n gorn a, choeliwch fi, mae cael swadan hefo tywel wedi rhewi ar eich gwar yn uffernol o boenus. Dwi'n cofio y geiriau a glywais yn nrama'r tywyllwch ar y noson rewlyd honno hyd heddiw — 'Chdi sy' wrthi'r diawl, 'nei di ddim eto'n fuan iawn.' Gwir a lefarodd, wnaethon ni ddim troi tap dŵr Cefn Bach ar noson rewlyd wedyn.

Ond fe wnaed triciau eraill â theulu Cefn Bach. Gan mai bwthyn unicorn, unllawr oedd o, tasg hawdd oedd dringo i ben

y to mewn sgidia-dal-adar a gosod sach gwlyb llawn o wellt ar y corn. Gwnaem hyn yn y gaeaf. Dringo i'r grib a gosod y sach ar y corn. Yna wardio'n dawel yng ngwaelod y cae. Ymhen tua ugain munud fe ymddangosai Bob, Lusa a John ar stepan y drws yn gôr o beswch, a chwmwl o fwg yn eu dilyn o'r 'Imperial'.

Bob oedd y cynta o driawd Cefn Bach i ymadael â'r fuchedd hon. Bu'n diodde am fisoedd ac yn ystod ei ddyddiau olaf, yn unol â thraddodiad yr ardal, arferai cymdogion caredig aros 'ar eu traed nos', fel y gallai John a Lusa gael noson o orffwys. Er y tristwch, deuai gwên i wyneb y cymdogion wrth ddisgrifio'r sefyllfa yn siambar Cefn Bach. Bob Dan yn ymladd am ei oriau olaf ac yn y grog-lofft, John yn belen gron o bymtheg stôn, yn chwyrnu fel tarw dyflwydd yng nghesail Lusa, a oedd bron yr un siâp corfforol â'i mab. O dan y gwely wenscot, yn ychwanegol at y pot-taro-deigryn roedd 'na gryn ddwsin o boteli Vimto. Roedd hi'n arferiad gan John i yfed potel gyfa o Vimto cyn mynd i'r ciando bob nos. Doedd lemonded nac unrhyw ddiod o liw arall ddim ar y 'menu' o gwbl — rhaid oedd i'r diod fod o liw coch. Yn wir, pan ddeuai'r achlysur i John fynd at y doctor a hwnnw yn paratoi potel o ffisysyddo — chymerai John 'r un gegiad ohono os nad oedd o'n ffisysydd coch.

Rhyw gwtâ ddwy flynedd a

gafodd Lusa ar ôl ei gŵr. Ar ddiwrnod ei ch'nebrwn fedrwn i ddim peidio â chofio am y cerdyn hwnnw a anfonodd Arfor a minnau i Lusa o Landudno. Roedd gan Lusa g'neithar yn byw yn Llandudno — Margaret oedd ei henw — hanner Saesnes, oherwydd iddi briodi â Sais ar ôl iddi golli ei gŵr cynta. Cerdyn post a llun pier Llandudno oedd o, ac fe sgrifennwyd arno 'Coming over on Thursday — 1.00 bus — Love Margaret.' Ben bore'r dydd Iau hwnnw roedd Lusa yn Siop James yn prynu pwysi o 'boiled ham' a thomatos, tuniau ffrwythau a theisennau. Roedd yr 'order' yn ddigon i wneud te-parti i holl blant y pentra, a James Davies yn rhwbio'i ddwylo'n dwll o wneud busnas mor dda mor gynnar yn y bora. Bu disgwyl a disgwyl, berwi ac ail ferwi'r tegell, ond wrth gwrs, nid ymddangosodd yr annwyl gyfnither Margaret. Bu Lusa yn y giat lôn drwy'r pnawn yn holi pawb a basiai heibio, ac erbyn adeg paratoi'r swper-chwarel roedd hi'n dechra rhedeg ar ei theulu. Bu'n rhaid i John anghofio sut flas oedd ar bysgodyn am sbel a dywedir iddo fynd i'r chwarel am gyfnod go hir hefo brechdana ham, ac wrth gwrs, roedd o wrth ei fodd hefo'r tomatos — roedd unrhyw beth coch yn wledd i John.

Newydd briodi yr oeddwn i pan fu farw Lusa. Yn wir


unwaith erioed roedd Myra, y wraig, wedi ei chyfarfod hi, pan ddaeth hi acw hefo paced o 'grease crackers' fel present priodas i ni — 'gin John a fi'. Bore'r c'nebrwn daeth John acw, gan ofyn i Myra 'fasach chi yn licio dwad i g'nebrwn mam?' 'Ond, John,' meddai Myra, 'diolch iti ond doeddwn i ddim yn nabod dy fam yn dda iawn — gwaetha'r modd.' 'Na, plis dowch,' crefodd John, ac fe ufuddhaodd Myra ac fe aeth i dalu'r gymwynas ola â Lusa Cefn Bach. Erbyn deall, roedd John wedi ordro llond maes parcio o geir ac roedd o'n mynd o gwmpas y pentra i chwilio am wirfoddolwyr i'w llenwi. Do, mi gafodd Lusa Cefn Bach g'nebrwn reit barchus — c'nebrwn go fawr hefyd.

Mi gafodd John g'nebrwn eitha parchus hefyd. Roedd pawb yn 'i nabod o — roedd John yn gymeriad oherwydd ei ddiniweidrwydd. Wrth ddilyn yr hers i fynwent Llanddeiniolen, fedrwn i ddim llai na gwenu a gollwng deigryn yr un pryd, o gofio geiriau John pan oeddau ni'n chware c'nebrwn ers talwm. 'Dwi ddim yn chwarae os na cha' i fod yn hers.' Do, mi gafodd John fod ar y blaen y diwrnod hwnnw.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy



Cig Bethel



OEN CYMREIG LLEOL CYFAN



PORC LLEOL



GWYLIWCH AM EIN PRISIAU ARBENNIG AM WYN LLEOL

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763



ORIEL CWM

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol

Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes

1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.

Bwrdd Pŵl ar gael.

Bwydlen Bar a Restaurant.
Mae gennym bellach drwydded lawn tŷ tafarn.

Un funud fach . . .

UNO

Mi ddaeth acw y diwrnod o'r blaen, ac rwyf wedi cael golwg arni. Bydd angen edrych arni eto dros y misoedd nesaf yma, gan fod rhywrai'n disgwyl i chi a minnau ddeud be da ni'n ei feddwl ohoni.

Rhyw ugain tudalen sydd i'r ddogfen 'Eglwys Unedig Cymru: Y Ffordd Ymlaen'. Ond bydd mwy o egni ac amser yn cael ei dreulio'n trafod hon na dim arall yn ein heglwys dros y misoedd nesaf. Mae disgwyl i'r eglwys a'r enwadau gyflwyno eu hymateb terfynol i'r argymhellion erbyn Gorffennaf 2001. Bydd y pwyllgorau sydd wedi llunio'r ddogfen yn ail ymgynnull wedyn i benderfynu'r cam nesaf.

Does gen i fawr i'w ddweud dros uno'r enwadau. A fedra i ddim bod yn frwd dros ddod â'r pedwar enwad anghydfurfiol at ei gilydd i greu Eglwys Unedig Cymru. Fydd uno pedwar corff sy'n gwaelu a marw ddim yn creu corff newydd byw ac iach. Fydd uno'r enwadau ddim yn golygu y bydd gennym well eglwys.

Ond rwyf o blaid cydweithio'n lleol rhwng yr eglwys. Ers un mlynedd ar ddeg yr wyf wedi cael profiad personol o'r fath gydweithio yn Neiniolen. Ac mae'r cydweithio yn hwylus a didrafferth. Dydi o ddim yn berffaith, a dydi popeth yr ydym wedi ei wneud wrth glosio at ein gilydd fel eglwys ddim wedi bod wrth fodd pawb. Ond mae yna ysbryd da, a'r ddwy eglwys yn cydaddoli'n gyson ac yn cydweithio'n llwyddiannus.

Bydd raid i ninnau ystyried dogfen yr Eglwys Unedig. Ond cyn mynd ati i wneud hynny rwyf eisiau canmol eglwys fy ngofalaeth (sydd hefyd yn cynnwys Capel Coch a Rehoboth). Dod yma wnes i yn 1988 fel olynydd i'r Parchg Trefor Lewis. Presbyteriad ydi o ac Annibynnwr ydw i. Hyd y gwn i, dyma'r ofalaeth fro gyntaf yng Nghymru i alw gweinidog o enwad arall ar ymadawiad y cynweinidog.

Chafodd yr eglwys fawr o glod am hyn yn 1988 nac ers hynny. Doeddau nhw ddim yn disgwyl cael eu canmol. Ond hefo'r holl sôn am uno, dyma gyfle da i gydnabod y peth.

JOHN PRITCHARD

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259



Rhai o gadlanciau Urdd St. Ioan Deiniolen a dderbyniodd dystysgrif Cymorth Cyntaf.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr nos Lun, Chwefror 21. Da oedd gweld fod llawer o'r aelodau yn ôl wedi gwaeledd a dymunwyd gwellhad buan i rai oedd yn dal yn wael. Braff oedd derbyn cyfarchion i ni yr holl ffordd o Awstralia oddi wrth ein hysgrifennydd, Iona Richards.

Mae gennym nifer o ddigwyddiadau i edrych ymlaen atynt yn ystod y misoedd nesaf, fel y Swper Gŵyl Ddewi yn Macsen, Caernarfon ar Fawrth 3; Sioe Ffasiwn yng Ngwesty'r Celt ar Ebrill 5 a chinio'r Llywydd Cenedlaethol yng Ngwesty St. Sior, Llandudno ar Ebrill 15.

Ar Fai 13 cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth ym Mangor ac ar Orffennaf 15 bydd trip i'r Wyddgrug gydag Aled Lloyd Davies yn ein tywys o gwmpas lleoedd o ddiddordeb yn y dref.

Gŵr gwadd y noson oedd Y Prifardd Ieuan Wyn, Bethesda a thestun ei sgwrs oedd 'Tywysogesau Llanfaes a Garth Celyn'. Gwagedd Llewelyn Fawr, y Tywysog Dafydd a Llewelyn ein Llyw Olaf oedd Siwan, Senena ac Eleanor, a'r tair wedi eu claddu yn Llanfaes. Bu bron i'w hanes fynd ar goll, ond diolch i haneswyr ein dyddiau ni, a chof cenedl, diogelwyd eu stori drist ar ein cyfer ninnau. Cafwyd noson o fwynhad mawr.

Margaret E. Jones, Margaret Roberts a Buddug Jones a wnaeth y te ac enillwyd y raffl gan Megan Morris.

URDD ST. IOAN. Nos Fawrth, 11 Ionawr yn ystod archwiliad gan y

'County Staff' derbyniodd y rhai isod dystysgrif Cymorth Cyntaf gan y Comisiynydd Mrs Gwenan Watkins R.G.N., O.S.St.J.

Tystysgrif Hŷn: Alison V. Jones, Julie Ann Jones, Sinead C. Jones, Ffion Haf Jones, Collette Williams, Michael J. Jones.

Ieuengaf (Action Pack): Laura W. Hughes, Christina Lacey, Deborah L. Lloyd, Emma C. Lloyd, Mathew J. Humphries, Jonathan A. Cyster, Antonio M. Spaini.



Cyflwynwyd Tarian Cofeb Mr C.T. Jones, O.B.St.J. i Julie Ann Jones, 59 Pentre Helen am y mwyaf o oriau o wasanaeth gwirfoddol yn ystod 1999 gan y Comisiynydd Mrs Gwenan Watkins, R.G.N., O.S.St.J.

PLAID CYMRU. Enillwyr Clwb 100 mis Ionawr oedd £10: Mrs Doris Owen, 6 Pentre Helen; £5: Mr Deiniol Williams, 32 Hafod Oleu. Enillwyr mis Chwefror oedd: £10: Miss Eleri Llwyn Jones, 1 Tŷ'r Faenol, Clwt-y-bont; £5: Mrs Helen Sutherland, Pen y Bont. DIOLCH. Dymuna Robert Owen ac Eleanor May Williams, 41 Rhydfadog ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau a'r anrhegion a gawsant ar achlysur eu Priodas Aur ar 4 o Chwefror. Cafwyd gwledd ardderchog yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis i ddathlu'r achlysur.



Sinead C. Jones, 11 Ffordd Cibyn, Caernarfon. Enillydd Tarian Cofeb Mr C.T. Jones, O.B.St.J. 1998. Derbyniodd dlws am bresenoldeb llawn yn nosbarth Cymorth Cyntaf 1999 gan y Comisiynydd Mrs Gwenan Watkins, R.G.N., O.S.St.J.

DYMUNA Bethan a Macari ddiolch o waelod calon i berthnasau a ffrindiau am yr holl anrhegion a chardiau a gawsant ar achlysur eu dyweddïad yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

MARWOLAETH Bu farw Buddug Iolen Griffiths ar Ragfyr 23, 1999. Yr oedd yn ferch i Mr a Mrs J.E. Griffith, Bryn Du, Clwt-y-bont ac yn chwaer i Ifan, Elwyn ac Aled. Ar ôl bod yn Ysgol Brynrefail a'r Coleg Normal aeth yn brifathrawes i Ysgol yr Hafod, Llanerfyl, Sir Drefaldwyn. Priododd â Emrys Griffiths ac ymsefydlodd yn Garthllwyd, Llanfaircaereinion. Cadwodd gysylltiad agos â Deiniolen a'r cylch a chyfrannodd yn aml i Eco'r Wyddfa.

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

x

Ffôn: (01286) 870253

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

CHWILOTA

ENWOGION

'Nimrod' yn Llanbeblig



Mae tuedd ymhlith y Cymry i feddwl am enwogion fel rhai a wnaeth eu marc ym myd llenyddiaeth, crefydd neu'r maes chwarae. Mae bardd y gadair neu'r goron yn cael yr un bri â phregethwyr neu emynwyr neu fawrion y maes rygbi neu'r cylch bocsisio. Nid yn aml y bydd rhywun o faes hollol wahanol yn dod i sylw. Un felly oedd 'Nimrod'.

Deuthum ar draws yr enw oherwydd iddo fyw am gyfnod byr — chwe mlynedd ar y mwyaf — yn agos iawn i fro'r 'Eco'. Rhwng tua 1813 a 1819 roedd wedi cartrefu yn y Tŷ Gwyn, Llanbeblig. Fferm ar gyrion tref Caernarfon, gyda thir yn ymestyn i lannau afon Saint oedd Tŷ Gwyn bryd hynny. Erbyn heddiw, mae yng nghanol y stâd enfawr o dai cyngor sy'n ymestyn o Ffordd Llanberis i gefn mynwent Llanbeblig. I'r dilynwyd pêl-droed yn eich plith, tu cefn i'r Tŷ Gwyn yr oedd cae chwarae Caernarfon United. Mae'r tŷ hefyd wedi ei amlygu yn y gyfres gomedi 'C'mon Midffild'.

Teulu'r Wynniaid o Beniarth oedd perchnogion Tŷ Gwyn yn y cyfnod hwn, ac yr oedd 'Nimrod', neu a rhoi iddo ei enw cywir — Charles James Apperley — wedi priodi un o ferched y Wynniaid, ac yn byw yno gan weithredu fel asiant i'w frawd yng nghyfraith.

Un o ardal Wrecsam oedd yn wreiddiol, ond nid oes sicrwydd a oedd yn gallu Cymraeg. O ddarlenn ei hunangofiant 'My Life and Times', tuedd sydd ganddo i wffio at y Cymry ofergoelus. Bu'n byw ar nawdd ei deulu yng nghyfraith am amser hir, heb feddwl am alwedigaeth a roddai iddo gyflog i gadw'i deulu. Mae ei frawd yng nghyfraith yn anobeithio ynglŷn ag ef tra'n byw yn Llanbeblig, ac y mae rhai o'i lythrau ar gael sy'n dangos nad oedd ganddo fawr o ymddiriedaeth ynddo fel asiant. Credai ei fod yn absennol o'i waith yn aml, a hynny

oherwydd ei ddileit mawr mewn hela; ac i ddilyn y gamp honno, rhaid oedd i 'Nimrod' deithio i diroedd brasach canolbarth Lloegr. Roedd yn ddilynwr brwd o helfa'r Quorn yn Swydd Leicester, a llawer o rai eraill yn Amwythig a siroedd cyfagos. Erbyn 1819 yr oedd wedi gadael Caernarfon a symud i swydd Amwythig. Mae'n debyg iddo ddod yn berchen peth arian tua'r cyfnod hwn yn dilyn marwolaeth ei fam, yr hwn a'i gwnâi'n annibynnol ar ei deulu yng nghyfraith, ond roedd wedi colli'r cyfan erbyn tua 1822.

Roedd eisoes wedi bod yn ysgrifennu i wahanol gylchgronau ar destunau yn ymwneud â helwriaeth, ac yn 1822 dechreuodd ysgrifennu'n rheolaidd i'r 'Sporting Magazine'. Roedd ei ysgrifau mor boblogaidd fel y cynyddodd cylchrediad y cylchgrawn, ac fe'i cyflogwyd gan y perchnogion.

Prin yw'r sôn sydd ganddo am ei gyfnod yng Nghaernarfon. Byddai wedi bod yn ddiddorol cael disgrifiadau o benedigion yr ardal ganddo; ond yr oedd ei fryd ar ddilyn meysydd brasach yn Lloegr, a chyfeiriadau dilornus gan mwyaf a geir ganddo am Gymru, yn enwedig am Sir Gaernarfon — 'that wild Welsh county' fel y cyfeiria ati yn ystod ei gyfnod o 'alltudiaeth' yma. Er hynny, fe'i cyfrifir yn awdurdod ar faterion yn ymwneud â hela a rasio ceffylau, ac y mae'n rhoi darlun diddorol, os unochrog, o ddosbarth y tiffeddianwyr yng Nghymru yn ystod cyfnod ei lencyndod.

Joseph Parry yn Llanberis

Noson cyn i'r erthygl hon gael ei hysgrifennu a'i hanfon i'r Wasg daeth galwad ffôn oddi wrth Ken Jones, Llanberis yn holi a wyddwn am gysylltiad Joseph Parry, y cerddor, â Llanberis. Roedd Ken wedi sylwi fod y Dr Joseph Parry a'i fab yn aros yn y Medical Hall, Llanberis ar noson cyfrifiad 1881, ac yn ceisio dyfalu pam. Yn ystod y flwyddyn honno y sefydlodd Goleg Cerdd Annibynnol yn Abertawe; hyn yn dilyn ei 'ymadawiad' disymwth o Goleg y Brifysgol Aberystwyth. Yr oedd hefyd yn organydd cyflogedig Capel Ebenezer yn y dref honno. Un myfyriwr o ogledd Cymru oedd wedi cofrestru yn y Coleg Cerdd hwn yn Abertawem a hwnnw yn fachgen o Lanberis, sef David Manllwyd Jones. Tybed a ddaeth Joseph Parry i Lanberis yn ystod 1881 i gynnal cyngerdd — yng nghapel yr Annibynwyr neu yn y Neuadd — oherwydd ei gysylltiadau â'r myfyriwr ifanc.

Dyna'r wybodaeth fel y'i cefais dros y ffôn. Mae Ken eisoes yn ceisio darganfod mwy o'r hanes, ond os oes rhywrai ymhlith y darllenwyr â mwy o wybodaeth — yn enwedig am David Manllwyd — yna peidiwch ag oedi rhag cysylltu, er mwyn cael darlun llawn o'r ymweliad i'w adrodd yn y rhifyn nesaf.

Alltudion America

Yn dilyn cyhoeddi'r llun yn y rhifyn diwethaf o'r 'Eco' o dorf o bobl o'r tu allan i Gapel Coch, Llanberis, daeth galwad ffôn yn adrodd fod y llun gwreiddiol gan y galwr, ac mai Cymdeithas Lenyddol Capel Coch yn 1895 a ddarlunir.

'Honey Farm Lane'

Yn y rhifyn hwn mae llythyr wedi

ei gynnwys ar ran Cyngor Cymuned Llanberis yn holi ynglŷn ag enw cywir y lôn fechan sy'n arwain o'r Stryd Fawr yn Llanberis heibio i dŷ y golygydd i'r man croesi ar y ffordd fawr. Fel yr eglura'r llythyr, mae tuedd yn ystod y misoedd diwethaf i'r enw hwn ddechrau cael ei ddefnyddio ar ddogfennau swyddogol, hyd yn oed gan Gyngor Gwynedd. Mae'r Cyngor Cymuned yn hynod awyddus i ddarganfod yr enw Cymraeg cywir am y lôn. Ar wahanol gyfnodau cafodd ei galw yn Lôn Plisman — yn ôl rhai, am fod plisman wedi bod yn byw arni rywdro tua chyfnod yr Ail Ryfel Byd. Roedd eraill o drigolion Llanberis yn ei galw yn Lôn Doman, oherwydd ei bod yn arwain o'r pentref i'r lanfa, ac yno, ar lan y llyn, y byddid yn arllwys gwastraff rhai o dai'r pentref ar un cyfnod!

Os defnyddir yr enw Saesneg hwn yn ddigon aml ar ddogfennau swyddogol, y perygl yw iddo gael ei dderbyn ar fapiau, yn union fel a ddigwyddodd i Fwlch Maesgwm pan aeth yn erchyllbeth o *Telegraph Pole Valley*. Felly, drigolion Llanberis, beth ydi'r enw cywir — yr enw Cymraeg cywir am y lôn?

Yn ystod y mis hefyd derbyniais gopiâu o 'Atgofion am Ddeiniolen' a 'Hanes Capel Tan y Coed, Llanrug'. Mwy am y rheini yn y rhifynnau nesaf gobeithio. Yn y cyfamser, daliwch i chwilota — yn enwedig am y ddau destun o Lanberis — ond anfonwch unrhyw ymholiad neu wybodaeth perthnasol i hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).



Uned 1A BRYNAFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 674100 (dydd)
(01286) 650732 (fin nos)

FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Cafwyd dathliad arbennig i'r Mileniwm newydd yn neuadd Ysgol Gymuned Penisarwaun. Pantomeim 'Pinocio' oedd dewis yr ysgol, a mwynhawyd gwledd o hwyl a chwerthin.

Bu'r plant yn brysur iawn ers wythnosau o dan arweiniad medrus Miss E.O. Griffith, yn paratoi. Roedd bob un o'r plant wedi cael rhan arbennig o'r rhai ieuengaf i'r hynaf. Anest Eifion oedd yn chwarae rhan y pyped pren, a Bedwyr Gwyn Parri oedd ei dad, Geppetto. Chwaraewyd rhan ei gath, Ffigaro, gan Sarah Woodward ac Antonio, ffrind Geppetto oedd Dylan Eddy. Sioned Alaw oedd yn dod â hud i'r sioe fel y Dylwythen Deg.

Cyfranodd y plant eu talentau lu i'r sioe — roedd môr o chwerthin ar ben 'Mr Humphreys' (Nadir Whitelaw) a 'Miss Jones' (Llyr Roberts). Aeth y sioe i'r goedwig, lle roedd anifeiliaid a choed anhygoel y babanod. Daeth pypedau genod Bl.4 i groesawu Pinocio, ac aethom i'r ysgol at 'genod' a hogiau Bl.5 a 6. Cawsom hwyl y syrcas gan Bl.3 a hogiau Bl.4, a bwyd yng Nghaffi Lwiji efo criw Bl.5 a 6.

Roedd y canu, yr actio a'r dawnsio yn wych iawn, a braf oedd clywed y gynulleidfa yn ymateb ac yn mwynhau'r cyfan.

Hoffai'r staff ddiolch yn fawr i'r plant am eu gwaith brwd, ac i Gyfeillion yr Ysgol am eu cefnogaeth. Diolch diffuant iawn i Mrs B. Griffith a Mrs M. Jones am eu cymorth efo'r gwisgoedd. Rhoddwyd sglein ar ein system sain gan Mr Eric Jones.

Mawr obeithiwn fod pawb wedi mwynhau ein sioe — dechrau gwyh i'r mileniwm newydd! Cynhwysir lluniau yn y rhifyn nesaf.

YSGOL SUL BOSRA. Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid eleni yng Nghapel Seiloh, Tregarth bnawn Sul, Ebrill 9. Bydd Cymanfa'r Annibynwyr yn cael ei chynnal yng Nghapel Jerusalem, Llanberis bnawn Sul, Ebrill 16. Felly mae amser prysur o flaen yr aelodau ffyddlon.

URDD ADRAN BENTREF. Nos Fawrth, Ionawr 25 cafwyd hanes Santes y Cariadon gan Ann Ifans.

Yna bu'r plant yn brysur yn cynllunio a dylunio cerdyn Santes Dwynwen i rywun go arbennig yn eu bywydau.

Chwefror 3 aeth yr aelodau i Ysgol Syr Hugh Owen i fwynhau Disgo'r Urdd. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i'r rhieni a fu mor barod i hebrwng y plant.

Chwefror 8 cafwyd digon o hwyl yn canu Carioci hefo Wendy Phillips.

Chwefror 15 bu Anti Jean ac Anti Liz yn difyrur'r plant gyda gêm Bingo.

Chwefror 29 dathlwyd Gŵyl Ddewi gyda Dawnsio Gwerin hefo Judith Harding.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Chwefror a'r enillwyr oedd: 1. Carole Porter, 4 Bron y Waun; 2. Eirlys Jones, Gwynant, 5 Bryn Hyfryd; 3. Margaret Williams, Carrog, Waun.

Cofier, y mae croeso mawr i aelodau newydd i ymuno â'r Clwb Cant am £6 y flwyddyn neu 50c y mis.

UN AR HUGAIN. Llongyfarchiadau i ti Sioned, Perthi ar achlysur dy ben-blwydd yn un ar hugain. Pob bendith i'r dyfodol.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlir yn ddwfn iawn â Norah a Valerie, Tŷ Capel gynt a'r teulu oll ar eu colled fawr ym marwolaeth eu tad, James Munro ac o fewn ychydig wythnosau, eu mam Margaret Munro. Ein cydymdeimlad hefyd â Brian a Seán a'r wyrion a'r wyresau Peter, Paul, Melissa, Rhian a Ruth.

Mawr ein cydymdeimlad â Mrs Catherine Williams, 20 Bryntirion ar golli ei chwaer yn Llundain yn ddiweddar.

Yn frawychus o sydyn, bu farw Beti Hughes, Clawdd Newydd, Llanrug, mam ofalus a thyner Dafydd Hughes ac Amanda a nain garedig Sophie a Kieron. Ein cydymdeimlad llwyrâf â chwi a'r teulu oll.

DIOLCH. Dymuna Eirlys Jones, Gwynant ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, ymweliadau a'r galwadau ffôn. Diolch hefyd am yr anrhegion

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

a'r blodau a fu o gymorth i godi'i chalon wedi iddi dorri'i braich yn o arw. Llawer o ddiolch i ffeddygon a gweinyddesau Ward Beuno Ysbyty Gwynedd.

JIM MUNRO (gynt o Tŷ Capel) Fore Mercher, Ionawr 19, yn dawel yng Nghartref y Borth, Llanrwst, bu farw Dad yn 85 mlwydd oed. Cawsom wasanaeth o ddiolchgarwch am ei fywyd yng nghapel Amlogsgfa Bangor ar Ionawr 25 dan arweiniad teimladwy Mr Merfyn Jones, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch Richard Glyn Jones.

Roedd teyrnged Merfyn i Dad yn arbennig a baint a chysur i'r teulu oedd gwranddo — roedd Dad yn arbennig, yn ŵr a thad annwyl — fe gawsom y gorau. Ar achlysur pen-bwydd Dad fe ysgrifennodd Idris (Minffordd)

'mae'n gymydog o'r goreuon yn gymwynaswr hael.'

Un felly oedd Dad i bawb yn ddiwahân. Mae ein diolch i chi, ei ffrindiau, yn ddiffuant iawn am ichi fod yn ffyddlon iddo, a diolch am y galwadau, y llythyrau a'r cardiau o gydymdeimlad â ni yn ein tristwch a'n colled. Mae ichi fod wedi cofio am Mam a ninnau wedi bod, ac mi fydd, yn help i'n cynnal yng ngwacter y misoedd sydd i ddod.

Diolch hefyd am eich haelioni; anfonwyd y rhoddion er cof amdano i 'Dŷ Gobaith', hosbis y plant, lle oedd yn agos iawn at ei galon bob amser. Diolch yn fawr am bob caredigrwydd.

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: (01286) 872276

GWELLHAD BUAN i Mrs Gwyneth Thomas, Gwelfor ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Hefyd i Owen Wyn Thomas, 1 Bryngwyn Terrace ar ôl cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Mae bellach wedi ei symud i Bryn Seiont, Caernarfon.

CYDYMDEIMLWN gydag Eric, Marion, John a Margret Jean ar ôl colli eu mam, Mrs M Owen, Tai Trefor gynt.

LLONGYFARCHIADAU i Sara Salisbury Roberts ar ennill Belt Du 3ydd Dan mewn Karate ac hefyd i Lindsey Roberts ar ennill Belt Du 2il Dan hefyd mewn Karate. Daliwch ati.

I DAD

Dad, diolch ichi am y cariad gafodd Valerie a finna ar yr aelwyd adra yn Nhŷ Capel efo chi — ac am ichi ymestyn yr un cariad i Brian ac i Seán ac i'n plant ni'n dwy. Mi wnawn gofio am byth am eich tynerwch a'ch cymwynasgarwch ac am eich gofal arbennig o Mam, mor ddiflino eich ymdrechion i wneud yn siŵr bod 'mam yn iawn'.

Gyda balchder y cofiwn am ichi gyfoethogi cymaint o fywydau, eu cyffwrdd â'ch gwên barod, eich llygaid direidus a gyda'ch ffraethineb.

Gyda diolchgarwch y cofiwn eich ffrindiau fu'n cyd-gerdded â chi gydol eich bywyd a gwerthfawrogwn y ffrindiau newydd ddaeth i'ch nabod a'ch caru. Trysorwn y ffrindiau oedd efo chi wrth ichi ymadael mor dawel.

Wrth i ni wynebu'r dyfodol yn hiraethus, bydd y sicrwydd eich bod efo ni'n ysbrydol yn cynnal Mam a ninnau ac yn ein helpu i gael cysur o gofio'r holl hapusrwydd a gawsom ni gyda'n gilydd.

Dad, diolch i chi am fod.

Nos dawch — wela' i chi.

Norah a Valerie

MAWRTH

Hen fis y gwyntoedd cadarn
A chlebar cas y brain;
Y gaea'n dal i oedi
A brath y gwynt mor fain.

Hen fis y rhyfel oesol
Sy' rhwng y Llew a'r Oen;
A'r croesau pren yn dangos
Lle bu y claf a'i boen.

Y mis sy' rhwng dau dymor;
Clywn fref yr oenig gwan;
Daw'r Gwanwyn yma eto
I'r mynydd yn y man.

Mae'r Daffodil a'r Eirlys
Yn dawnsio yn y gwynt;
Clywn chwiban y Gylfinir,
Hen adlais dyddiau gynt.

John V. Morris,
Rhianfa, Clwt-y-bont

AR GOLL

Gadawyd dau bâr o fenyg a het/cap 'Nike' yn Eglwys Sant Padarn ar noson Gwasanaeth Dathlu'r Milflwydd.

Cysylltwch â'r Parchedig Philip Hughes os ydych wedi colli menyf neu gap.

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewglist

MYNWOH Y GORAU
DEWCH ATOM NII


AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:-

Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon

LLANRUG

ffôn: (01286) 650349

(0589) 899901

Rhagor o Lythrau

Annwyl Olygydd,

Yr Hawl i Grwydro

Cefais fy magu ar fferm ddefaid, fel Dafydd Morris mae'n debyg, ond mynnwn ateb ei erthygl ac, er ei fod yn ysgrifennu o'i galon, y diffyg rhagweliad sydd ynddo.

Lawer blwyddyn yn ôl cafodd fy nhaid gynnig i gadw carafanau, ond fe wrthododd, gan mai ffermwr oedd, nid 'cadwr carafanau i fobol a oedd methu byhafio'. Dros y blynyddoedd, er ymdrechion caletaf fy nhad druan, fe ddaeth y fferm i beidio a thalu, nes yn y pen, ar ôl gwerthu oen i'r cigydd, roeddem yn methu a phrynu yr oen wedi ei ladd yn ôl ganddo. Roedd y fferm yn rhy fechan, ac yr oedd yn rhaid ei gadael - sefyllfa sydd yn bygwth llawer ar y funud, mae gen i ofn. Rwyf yn ddiolchgar dros ben fod gennyf hawl i grwydro'r mynydd lle cefais fy magu, er na cha'i ddim croesi'r caeau ond ar yr unig lwybr swyddogol sydd yna. Yn amser fy nhad roedd croeso i hogia'r pentref hela cwningod a hel myshrwms, neu i fynd am dro os mynnant, ar y tir.

Fel Dafydd Morris, roeddem yn cael cŵn o'r pentref yn ogystal â chŵn ymwelwyr yn mynd ar ôl defaid. Roeddem yn colli un neu ddwy bob blwyddyn, gydag ambell i un yn mynd drosodd i'r môr, heb obaith am daliad yswiriant gan fod yna ddim corff i'w ddangos. Tybed beth sydd yn digwydd yn Eryri y diwrnodia yma? Ond mae yna ateb trwy y gyfraith, ac hefyd mi ddylwn ddweud fy mod wedi helpu pum dafad ac un oen yn Eryri yn y blynyddoedd diwethaf, er ni wŷr y ffermwyr ddim am hyn. Mi wn fod cerddwyr eraill wedi gwneud pethau tebyg - ac mae amal i un wedi ei fagu ar fferm.

Mae Dafydd Morris i'w weld yn poeni rhag ofn bod estroniaid yn cael hawl i gerdded y mynyddoedd. Ond nhw sydd yn talu trethi i Brussels i helpu'r ffermwyr, a nhw sydd yn bwyta

cynnyrch ein ffermwyr. Nid yw Cymru fel ynys yn y canol oesoedd. Yn ogystal, ac mae hwn yn bwynt pwysig - beth os estroniaid fydd pia'r tir mewn blynyddoedd i ddod? I ble'r awn ni am dro wedyn os nad oes hawliau gennym?

Os fasa'n 'nhaid wedi rhagweld y dyfodol, hwyrach y baswn i, a'm plant, yn dal i fyw ar y fferm. Ond, fel mae ffermio yn mynd i lawr, mae'n rhaid troi i gyfeiriadau eraill, er fod hyn yn groes i'n gwaed. Ffolineb hollol fuasa rhwystro hawl i bobol ddod i gerdded y mynyddoedd a'n llwybrau. Croesawu a manteisio ar y cyfle masnachol a ddaw hefo'r hawl i grwydro yw y siawns orau i lawer o ffermwyr yr ucheldiroedd gadw gafael ar eu cynefin a'u hetifeddiaeth. Os na wneir hyn, mae'n debyg mai dim ond ychydig o ffermydd anferth fydd gennym yn ucheldiroedd Cymru yn y dyfodol, a Duw a wŷr pwy fydd piau nhw.

Yn gywir,
Gwyn Jones
Corner House
Willington, Tarporley
CW6 0ND
(01829 751757)

Gayney Griffith

Annwyl Olygydd,

Rwy'n awyddus iawn i gael gwybodaeth am Gayney Griffith, yn enwedig darlun ohoni. Credaf iddi gael ei geni ym 1850 a bu farw yn Ysbyty Eryri, Caernarfon yn Rhagfyr 1942. Roedd yn soprano ddisglair, yn un o ddisgyblion Joseph Parry yn Aberystwyth ac yn un o'r unawdwyr yn y perfformiad cyntaf o 'Blodwen'. Bu yn cadw nifer o gyngherddau yn ddiweddarach gydag unawdwyr fel James Sauvage. Deallaf ei bod yn enedigol o Lanberis. Os oes disgynyddion ohoni yn dal yn yr ardal byddwn yn dra diolchgar pe gallent gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,

Eryl Wyn Rowlands
Llwyn Celyn
82 Perth y Paun
Llangefni
LL77 7EX

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Byd y Beirdd

Annwyl Olygydd,

Mae Cyfrifiaduron Sycharth wedi rhoi cannoedd o gerddi ar gyfer plant cynradd ar y we fyd-eang — yn gyfangwbl am ddim — i bob plentyn drwy'r byd.

Mae'r beirdd canlynol eisoes wedi cyfrannu i *Fyd y Beirdd*: Dafydd Iwan, Ceri Wyn Jones, Tudur Dylan Jones, Donald Evans, Mei Mac, Gwyn Morgan, Emyr Hywel, Derec Llwyd Morgan, Peter Hughes Griffiths, Dafydd Islwyn Hughes, Owain Owain, Rhys Dafis, John Elfed Jones, Bryan Martin Davies, Max Boyce, Desmond Healy, Aled Lewis Evans, Selwyn Griffiths, Dorothy Jones, Tegwyn Jones, Emrys Llangwm, Meredydd Evans, John Elfed Jones a Geraint Lovgreen.

Mae hyn yn ddathliad o dri pheth: Cymru newydd, mileniwm newydd a thechnoleg newydd.

Hwn, mae'n debyg, yw'r casgliad mwyaf erioed o gerddi i blant dan 11 oed yn y Gymraeg,

Annwyl Olygydd,

Mewn perthynas ac ysgrif gan Mrs Annie E. Williams, Tŷ Newydd Bethel yn yr Eco mis Chwefror 'Newidiadau'.

Amgaeaf hanes y ddamwain (yn yr Herald Cymraeg) mae Mrs Williams yn cyfeirio ati ar ddiwedd ei hysgrif. Yn y flwyddyn 1926, nid 1922 y digwyddodd hyn. Roedd fy

ac mae lle i ychwaneg. Mae croeso i'r darllenwyr ddanfod cerddi atom i'w hystyried — boed y rheiny'n hen gerddi neu'n rhai newydd. Mae hi'n hen bryd i bob gwasg a chyhoeddwr llyfrau roi pob llyfr ar y we — am ddim i bob plentyn Cymraeg drwy'r byd. Dyna i chi anrheg! A dyna i chi ymestyn oes y Gymraeg am genedlaethau.

Yn barod, mae yma gerddi o bob lliw a llun, yn hen a newydd gan feirdd gorau'r genedl. Mae'n ffynhonnell wych i eisteddfodau'r Urdd ac i eisteddfodau lleol heb sôn am yr ystafell ddsbarth a'r cartref. Mae plant yn hen gyfarwydd â'r dechnoleg hon ac mae nhw'n rocedu i *Fyd y Beirdd* hyd yn oed ar y Sul!

Mae'r safle i'w gweld ar y we ar www.cymruwales.com. Piciwch draw!

Yn serchus iawn,

robin llwyd ab owain
sycharth@senterprise.net
Sycharth, Blwch SP 1165
Llangollen LL20 7FZ

nhaid yn dyst yn y Cwest.

Rwy'n siŵr y buasai Mrs Williams yn medru dweud llawer o hen hanes Bethel wrth yr Eco. Mae dros ei 80 oed ac yn ffyddlon i Gapel Bethel (A).

Yn gywir,
Eirlys Sharpe
Ael y Bryn
Bethel.

DAMWAIN BETHEL.

TREN CHWAREL A MODUR MEWN GWRTHPARAWIAD.

Lladd dau o Gaernarvon.

Ddydd Gwener bu damwain ddifrifol yn Methel tŷw i'r tren sydd yn cludo llechi o chwarel Dinorwig i'r Felinheli fynd i wrthdarwriad a modur yr Anglo American Oil Co., Ltd., ar y "crossing" ger Saron. Lladdwyd gyriedydd y modur, Mr Thomas Williams, (48), 17, New Street, Caernarvon, a'i gynorthwyr, Mr William David George Williams (19), 31, Victoria Street, Caernarvon, ar unwaith, a maluriwyd y modur. Gwr gweddwy ydoedd Mr T. Williams, a chanddo ddau o blant, a mab Mr J. Venmore Williams, paent i'r ydoedd Mr W. D. G. Williams, ac wŷr i'r canwr penuillion adnabyddus Ap Eos Môn.

Prynawen Gwener symudwyd y cyrst oedd o dan y wageni a'r peiriant, i ystafell y Y.M.C.A. Bethel, lle y cynhaliwyd

Y Cwest

prynawen Sadwrn o flaen Mr Pentir Williams. Ymddanghosai Mr M. E. Nee, dros ymddiriedolaeth ystad y Faelol a Mr Denton Jones, dros yr Anglo American Oil Company Ltd., a thros deuluoedd y ddau ddyn. Yr oedd Mr Q. R. Jones, Arolygydd y Mwnfeydd, a Super. Williams, Caernarvon yn bresennol.

Rhoddodd Mr W. D. Williams, Bryn Glas, Idenfaglon dystiolaeth o adnabyddiaeth o Mr T. Williams, a Mr J. Venmore Williams o'i fab, Mr W. D. G. Williams.

Dywedodd Mr Isaac Williams, Tyddyn Andrew Isaf, Bethel, ei fod wedi gweld y ddamwain oddeutu hanner awr wedi unarddeg fore Gwener. Tystiodd fod y modur yn mynd i fyny'r rhiw yn araf iawn ac fod y tren yn awu i'r ystafell y crossing gyda'r rhylyndra arferol a chan chwibanu fel

arfer. Clywodd y gwrthdarwriad a gwelodd y fflam achoswyd trwy i'r olew gymryd tan.

Tystiodd Mr William Evans, 1, Penrallt Cottages, Felinheli, gyriedydd y tren ers 8 mlynedd, iddo neshau at y crossing oddeutu hanner awr wedi un ar ddeg. Pan yn agoshau at y ffordd chwibanodd fel arfer. Gwelai y modur yn dod o gyfeiriad Eglwys Saron yn araf iawn, a phan oedd o fewn ychydig latheni i'r rheilffordd stopiodd, a chymerodd y gyriedydd yn ganiaetol ei fod am adael i'r tren basio. Pan oedd y tren o fewn 13 o latheni i'r ffordd, ailgyhwynodd y modur, rhoddodd yntau y "brakes" ar unwaith, ond yr oedd yn rhy ddiweddar. Tarawyd y modur yn ei ganol, ac aeth y dynion a'r modur o dan y peiriant. Stopiodd y tren o fewn 27 o latheni ar ol y gwrthdarwriad.

Cadarnhawyd hyn gan y taniwr, Mr Thomas Evans, 71, Bangor Street, Felinheli, a chafwyd tystiolaeth hefyd gan y guard, Mr O. J. Roberts, 1, Sea View Terrace, Felinheli.

Dywedodd Dr G. Ap Vychan Jones, Felinheli, ei fod yn teithio ar y pryd o Gaernarvon i Bethel, pryd y cafodd ei hysbysu gan yr Heddwras Nicholas o'r ddamwain. Prysuodd yno, a chafodd fod y ddau ddyn wedi eu lladd ar unwaith.

Dyfarodd y rheithwyr mai "Damwain" ydoedd, gan ychwanegu yr awgrymiadau fod yr awdurdodau i osod giatau yno fydd yn eiddo'r y ffordd pan fydd y tren yn mynd heibio, ac i gau ar y rheilffordd ar ol iddi basio; fod "flagman" i'w gadw yno hyd nes y rhoddid y giatau; fod y "brakes" sydd dan ofal y guard i'w gwella; fod y Cynzor Sir i roddi arwydd yno i rybuddio y cyhoedd o berigl; ac hefyd crybwyllent wneud yr un peth a'r tair "crossings" eraill oedd ar ffordd y rheilffordd.

Pasiwyd cydymdeimlad a'r teulu oedd yn eu trallod ar gynhygiad Mr Pentir Williams.

Dymunai Mr J. V. Williams ddiolch o galon i drigolion Bethel, yn enwedig y merchod, am eu caredigrwydd a'u

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

SEFYDLIAD Y MERCHED. Daeth yr aelodau ynghyd i'r Festri nos Lun, Ionawr 24 dan lywyddiaeth Mrs Verna Jones, Meillionen. Roedd y noson dan ofal Mrs Anita Long, Tan yr Onnen yn ardangos y grefft o baentio ar sidan. Yn dilyn cafodd yr aelodau y profiad o ymarfer y grefft a chreu sgarff addurniedig. Paratowyd y baned gan Mrs Pat Jones a Mrs Anita Long. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Carol Houston oedd Mrs Verna Jones.

Ddydd Sadwrn, Ionawr 29 cynrychiolwyd y gangen yn y Cyfarfod Blynnyddol yn Ysgol Brynrefail gan Mrs Carol Houston. Nodweddd amlwg o'r cyfarfod oedd fod y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr wedi gwisgo dillad o gyfnod arbennig o'u dewis yn ystod y ganrif ddiwethaf.

Bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda'u cinio blynnyddol yng Ngwesty Gallt y Glyn nos Lun, Mawrth 6.

CYDYMDEIMLAD. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf â Moira Ellis, Gweledfa yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs Jenny Leycock yn 88 mlwydd oed ar Chwefror 11.

DIOLCH. Dymuna Eirlys a Wilbert Williams, Marino ddiolch i bawb am yr anrhegion, blodau, arian a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur.

LLONGYFARCHIADAU. Estynnwn ein llongyfarchiadau i Mr Geraint George, Sŵn yr Engan, Cyfarwyddwr Rheolaeth Cefn Gwlad ym Mhrifysgol Bangor ar gael ei apwyntio gan y Cynulliad Cenedlaethol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd ymhlith chwe aelod fydd yn cychwyn ar eu dyletswyddau ym mis Mawrth ac yn cynghori'r Awdurdod ar faterion cadwraethol a chymunedol.

TAITH NODDEDIG. Rydym yn falch o ddeall fod Mr Dafydd Williams, Meini Gleision wedi dychwelyd gartref yn ddiogel wedi cwblhau ei daith feicio nodedig — oddeutu 250 o filltiroedd mewn pum niwrnod ar ynys Cuba. Mewn tywydd ffafriol rhwng Ionawr 15 a 23, bu'r daith yn un blesurus a llwyddiannus ar lawer ystyr. Yr uchafbwynt oedd yr ymateb a

gafwyd i godi arian i Gymdeithas Cŵn i'r Deillion. Llwyddwyd i gasglu y swm o £2,500 at yr achos teilwng hwn. Dymuna Dafydd ddiolch yn gynnes iawn i bawb a gyfrannodd mor hael i'r gronfa.

SIOE GERDD. Llongyfarchiadau mawr i blant Brynrefail sy'n ddisgyblion yn Ysgol Gymuned Penisarwaun ar eu perfformiad yn y Sioe Gerdd 'Pinocio' a lwyfannwyd yn yr ysgol ar Chwefror 16 a 17. Roedd y cyfan yn wledd i'r llygad a llawer talent yn amlygu ei hun o dan y colur effeithiol a'r gwisgoedd lliwgar a thrawiadol.

PROFEDIGAETHAU. Daeth tristwch dros y pentref yn ystod y mis pan gollwyd drwy farwolaeth, o fewn diwrnod i'w gilydd, ddwy chwaer a oedd yn gymeradwy iawn yn y gymdeithas, yn barod eu gwasanaeth ac yn aelodau ffyddlon o Gapel Brynrefail. Yn gynnar fore lau, Chwefror 17, yn frawychus o sydyn, er iddi fod yn ymdrechgar a gwrol yn wyneb nifer o anhwylderau yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, bu farw Mrs Dilys Jones, Cytir yn 76 mlwydd oed. Bu'r angladd cyhoeddus yng Nghapel Brynrefail ddydd Gwener, Chwefror 25 gyda'r Parch John Pritchard, Llanberis yn gwasanaethu ac yn dilyn ym mynwent Macpela, Deiniolen.

Daeth y newydd drannoeth, ar drothwy ei phen-blwydd yn 69 oed, am ymadawiad Mrs Betty Owen, Tros yr Afon a oedd wedi dioddef cystudd blin ers peth amser a hynny gyda dewrder a sirioldeb. Yn dilyn gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Brynrefail ddydd lau, Chwefror 24 dan arweiniad y Parch Harri Parri, Caernarfon a'r Parch Marcus Wyn Robinson, bu'r gladdedigaeth ym Mynwent Macpela, Deiniolen.

Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â theuluoedd yr ymadawedig a bydd eu colli o'n plith yn gadael bwlch amlwg yn y gymuned — dwy wedi bod a chysylltiad â Thros yr Afon ar gyfnodau gwahanol yn ystod eu bywyd.

EGLWYS BRESBYTERAIDD BRYNREFAIL. Dan nawdd yr Ysgol Sul a charedigrwydd Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog, cyflwynwyd cofroddion i ieuencid yr Ysgol Sul i ddathlu'r Mileniwm. Cyflwynwyd iddynt gopi personol o'r gyfrol Storiâu 2000 ynghyd â chofrodd o gwpan ac arni arysgrif pwrrpasol i ddathlu'r achlysur.

Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod Suliau mis Mawrth:

5: Parch John Pritchard, Llanberis am 2.00; 12: Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon am 10.00; 19: Mr J.O. Roberts, Bethesda am 5.30; 26: Parch James Clarke, Y Groeslon am 2.00.



Amy, Caryl, Awen, Rhian ac Anna gyda'r cofroddion a gawsant gan yr Ysgol Sul yng Nghapel Brynrefail.

IARD Y CO-OP, LLANRUG

Safle dan glo i:-

- * gadw mân ddeunyddiau adeiladu
- * barcio ceir/faniau oddi ar y stryd dros nos

Telerau i'w trafod

Cysyllter â Margaret Jones. Ffôn: (01286) 673547



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

EMYR JONES

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
Caernarfon 673513

Ffôn Symudol: 07774 496616

+

J.M.
JONES
A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

Pa un o'r rhain sydd
bwysigaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed
colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed
colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i
arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r Isod i weld mor
rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

ADREF O'R YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Mair Williams, Elidir View gan ddymuno gwellhad buan ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mr Llew Hughes, Hyfrydle a Mrs Enid Price, Stryd Newydd sydd yn Ysbyty Gwynedd gan ddymuno gwellhad buan iddynt.

DIOLCH. Dymuna Mrs Mair Williams, Elidir View ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion ac am bob caredigrwydd a derbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch arbennig i bawb yn Ward Prysor, Ysbyty Gwynedd. **LLONGYFARCHIADAU** i Angela a Kevin, Tryfan ar enedigaeth eu mab, Kieran, brawd bach i Michelle a Nicola.

CAPEL Y TABERNACL.

Cynhaliwyd cyfarfod nos Fercher, Ionawr 19, 2000 gyda'r Parch Gwynfor Williams yn llywyddu. Etholwyd Mrs Vera Price, Tan-y-graig yn drysorydd a Mrs Iris Rowlands, Glanrafon yn ysgrifennydd. Diolchodd Mr Williams yn ddiffuant i'r cynswyddogion, Mrs Beryl Parry, Hebron a Mr Hywel Morris am eu gwaith yn ystod y blynedd diwethaf. Cyfeiriodd Mr Williams at anhwylder Mr Llew Hughes, Hyfrydle sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwyd ein cofion cynhesaf ato gan ddymuno gwellhad buan ac y cawn ei gwmni yn ein gwasanaethau yn y Gwanwyn.

DIOLCH. Dymuna Mr Llew Hughes, Hyfrydle ddiolch yn fawr iawn i bawb am y galwadau personol, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn. **CLWB GARDADIO CWM.** Nod prosiect Clwb Garddio Cwm yw ffurfio clwb garddio cymunedol ym mhentre Cwm-y-glo. Bydd hyn yn golygu fod y cyhoedd yn gallu cael mynediad i gyfleusterau sy'n perthyn i Menter Fachwen, i'r tŷ gwydr, y sied botio a'r twnel plannu a chael defnyddio'r offer gardd yno.

Fel rhan o'r prosiect bwriedir

sefydlu cynllun compost cymunedol a phlannu gardd berlysiau yng nghefn Pant Afon. Mae hefyd yn bosibl y gallai'r prosiect olygu addasu'r parc bychan ym mhen draw'r pentref fel y bydd y mynediad iddo yn addas ar gyfer rhai sydd ag anabledd. Soniwyd am osod carreg goffa'r chwarelwyr yn y parc ac efal lai y bydd trac yr hen lein drên yn lôn feics ac yn cyrraedd cyn belled.

Prif amcan y prosiect yw tynnu pobl y pentref a'r ardal gyfagos at ei gilydd a sefydlu fforwm gwirfoddolwyr. Ochr yn ochr â chael gwirfoddolwyr lleol i gefnogi gweithlu Menter Fachwen buasai'r cynllun yn gyfle i bobl ifanc yr ardal gael ymwneud â'r gweithgareddau. Gallai helpu trigolion hŷn gyda gwaith yn y gerddi fod yn un agwedd o'r gwaith.

Nod y cynllun comost cymunedol yw i amlygu budd 'cymunedau parhaol' gyda help gwirfoddolwyr lleol. Mae mawnogydd bregus a phrin yn cael eu difrodi oherwydd y galw am gompost mawn. Wrth greu ein compost ein hunain mae'n arbed rhywfaint ar ein mawndiroedd. A thrwy gael cymunedau lleol i arfer

creu cynnyrch defnyddiol allan o ddefnydd gwastraff gallant weld y cyfraniad sy'n bosib ei wneud i fywyd mwy cynhaliol.

Yr ydym yn ddiweddar wedi derbyn grant bychan oddi wrth 'Hanson Landfill Environmental Projects Fund' ac rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i gymryd rhan yn y gwaith o sefydlu a rhedeg y cynllun.

Gobeithir trefnu cyfarfod agored yng Nghaban y Cwm yn fuan a chael cyfle i weld fideo 'Alice in Wasteland'. Cyhoeddir manylion cyn bo hir.

YSGOL CWM Y GLO. Rydym mor falch o gael llongyfarch Rhian Wyn Morris Bl. 5 ar ei pherfformiad yng Nghystadleuaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Daeth Rhian yn bedwerydd allan o bedwar ar hugain yn y gystadleuaeth i unigolion rhwng 10 a 12 oed. Da iawn chdi, Rhian.

Unwaith eto'r mis hwn rydym yn croesawu babi bach newydd i'r pentref. Llongyfarchiadau i chwi Kevin ac Angela, Cyster, Tryfan, Cwm y glo ar enedigaeth Kieran. Mae o'n fachgen bach lwcus iawn gyda Michelle a Nicola, ei ddwy chwaer fawr, yn nyrsus mor dda iddo.

Mae Mrs Nia Oliver, Brynrefail wedi gorffen ei chyfnod ymarfer dysgu erbyn hyn. Doedd neb eisiau ei gweld yn gadael a bu'r babanod wrth eu bodd yn ei chwmni. Dymuniadau gorau i chwi Nia wrth

gwblhau eich cwrs yn y coleg.

Llongyfarchiadau i Mrs Rita Williams, Caernarfon a Mrs Hilda Orritt, Cwm y glo. Hwy oedd enillwr Clwb yr Ysgol am fis Ionawr.

CANGEN YR URDD. Dathlwyd Gŵyl Santes Dwynwen gyda chystadleuaeth grefftiau. Gwnaeth y plant luniau a chardiau a derbyniodd yr enillwyr wobrau.

Aeth plant yr Adran Iau i Ddisgo a gynhaliwyd yng Nghaernarfon. Mwynhaodd pawb y noson a diolch i Mrs Jennifer Roberts am drefnu'r noson ac i'r rhieni am gludo'r plant.

Yna mewn cyfarfod arall cawsom hwyl gyda gemau a chaneuon gwersyll. Roedd y noson hon dan ofal Mrs Rita Williams a diolch yn fawr iddi am ei gwaith.

Aeth tîm pêl-droed 5-bob-ochr i Neuadd Arfon ar gyfer cystadleuaeth yr Urdd. Chwaraewyd tair gêm gyda'r tîm yn ennill un, un gêm gyfartal a cholli un. Da iawn chi hogiau a diolch i Llion Bryn, Gafin, Liam, Leon, Huw, Dewi a Sion Arfon am gynrychioli'r ysgol.

**Bydd hanes taith
Ysgol Brynrefail
i Florida yn y
rhifyn nesaf.**

Côr Plant Deiniolen. Pa flwyddyn tybed?



Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

CINIO SUL Y MAMAU

EBRILL 2: £13.50

Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO
nos Wener olaf pob mis

A HEFYD
COFIWCH AM EIN
Delibistro
Ffoniwch am fanylion

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

CLWB FFRINDIAU YSGOL DOLBADARN. Enillwyr Chwefror 2000 yw: (84) Mrs Brenda Roberts, Goodman Street - £35; (136) Mrs June Fraser, Maes Padarn - £25; (137) Menai Jarvis, 25 Dol Elidir - £15; (115) D. Eans-Williams, 7 Rhes Faenol - £10; (114) Mrs Hilda Williams, 5 Rhes Faenol - £5.

DIOLCH. Hoffa Meinir Angharad, Arlys, Stryd y Ffynnon ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, arian a'r anrhegion a dderbyniodd ar

achlysur ei phen-blwydd yn un ar hugain oed yn ddiweddar. Diolch i bawb.

DYMUNA Mrs Carrie Hughes, 5 Ffordd Padarn ddatgan ei gwerthfawrogiad diffuantaf i'w theulu oll a'i llu ffrindiau am bob caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei gwaeledd yn ddiweddar. Diolch am yr holl ymweliadau, galwadau ffôn a'r llu anrhegion. I'w chyfeillion agos, diolch am bob gofal a chariad, hefyd i Mrs Eirian Mali a Staff Cartref Preswyl Bron Eryri. Diolch i bawb.



Ceri Dart, nyrs ardal Llanberis, yn derbyn tusw o flodau gan ei chydweithwraig Jill Williams, ar ei hymddeoliad wedi blynyddoedd o wasanaeth yn yr ardal.



Yn ystod swper ymddeoliad Ceri Dart cyflwynodd y meddygon roddion i ddwy aelod o staff eu meddygfa i gydnabod eu gwasanaeth dros 25 mlynedd. Mae Eirianwen Thomas yn gweithio yn y fferyllfa yn Neiniolen a Llanrug, a Non Evans yn dderbynydd yn Llanberis.

G. EVANS



ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR


Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug
(01286) 678030

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

Arian y Carnifal



Arfon Phillips (Trysorydd y Carnifal) yn cyflwyno rhodd o £1,500 i Thomas John Roberts, Cadeirydd Clwb Pêl-droed Ieuenctid Llanberis.



Michael Griffiths, Cadeirydd Seindorf Llanberis yn derbyn siec am £1,500 oddi wrth y Carnifal.

CARNIFAL LLANBERIS. Yn dilyn Pwyllgor Blynyddol Cyffredinol a gynhaliwyd yn ddiweddar, penderfynwyd cynnal wythnos y Carnifal o'r 10 i'r 15 Gorffennaf 2000.

Dewiswyd y swyddogion canlynol: Llywydd: Eris Baylis; Cadeirydd: Gareth Jones; Trysorydd: Arfon Phillips; Ysgrifennydd: Alan T. Jones. Gweddill y pwyllgor fydd Alwyn Thomas, Eurwyn Thomas, Arwyn Roberts, Christine Thomas, Julie Baylis, Rhian Llwyd Ellis a Sion Llwyd Elis.

CANTATA

Mae eglwys Llanberis wrthi'n dysgu caneuon newydd ar gyfer perfformiad o'r cantata 'Gloddest Bywyd' sydd i'w gynnal yn Eglwys Sant Padarn nos Sul y Pasg. Cyfieithiad o waith gwreiddiol Garth Brookes yw'r cantata, ac mae'r ymarferion yn cael eu cynnal yn festri Capel Coch am 7 o'r gloch bob nos Fawrth. Mrs Susan Williams yw'r gorfeistres.

Mae croeso cynnes i unrhyw un ddod i ymuno â'r criw sy'n paratoi ar gyfer y cyflwyniad. Mae digon o waith i rai na fedr ganu hyd yn oed.

Pafiliwn Y Rhyl

Nos Sadwrn Ebrill 15ed 7:30

Idris Charles yn cyflwyno...

Y. GORAU O'R DDAU FYD

DAFYDD IWAN

a'r band

a TIMOTHY EVANS

gyda

Lynda Healy

Côr Dyffryn Peris

Annette Bryn Parry

Tocynnau £6.50 Gostyngiadau £5.50 FFoniwch 01745 33 00 00



Aeth pump disgybl blwyddyn saith i Wersyll yr Urdd yng Nglan Llyn yn ddiweddar a dyma oedd ganddynt i'w ddweud:

Roedd y daith ar y bws yn un hir a blinedig er fod dwy ysgol arall gyda ni yn gwneud andros o sŵn! O'r diwedd, cyrraedd, cael te, gweld ein hystafell ac i ffwrdd â ni i nofio.

Ifan Dafydd Owen 7i

Dydd Sadwrn, codi, er nad oedd neb wedi cysgu rhyw lawer ac, ar

Nôl o Florida



ôl molchi a newid, cyrraedd i nôl brecwast a gweld ein bod yn rhy hwyr! Yna, gyda stumog wag, cerdded draw at y llyn ar gyfer canwio. Cael ein dysgu gan y Swog i rwyfo y ffordd gywir, gwisgo'r offer diogelwch a neidio i mewn i'r cwnŵ ac i ffwrdd â ni. Doedd hi ddim mor hawdd i ddechrau ond yna cael tipyn o hwyl arni ac i ffwrdd â ni.

Dafydd M. Williams 7i

Nos Sadwrn roedd disgo a dim ond un broblem, roedd dros saith deg o enethod a dim ond tri ar ddeg o fechgyn! Pawb yn dawnsio, y plant a'r athrawon ac ambell un ohonom ni fechgyn yn cael cariad!

Cael hwyl fawr yn dawnsio a neb yn cael llawer o gwsg y noson honno chwaith

Jake Burston 7O

Ar y bore Sul, codi'n fuan i ni gael brecwast! Yna mynd i fowlio deg ac i ddringo, a chefais ail yn y gystadleuaeth bowlio deg. Yn ôl wedyn i bacio fel bod pawb yn barod i gychwyn am un o'r gloch. Siwrnai swnllyd arall ar y ffordd adre a phawb yn cyrraedd yn ôl wedi blino'n lân ond wedi cael llawer o hwyl ac atgofion lu.

Garth E. Jones 7s

Dymuna'r bechgyn i gyd ddiolch i Mr Elfyn Roberts am fynd gyda hwy a bod yn gyfrifol amdanynt. Diolch Syr!



NEWYDDION O YS

Traws Gwlad

Cynhaliwyd cystadleuaeth Traws Gwlad Gogledd Gwynedd yng Nglynllifon, lle cafodd nifer fawr iawn o'n disgyblion lwyddiant a llwyddo i fynd ymlaen i Ddolgellau yng Nghystadleuaeth Eryri.

Daeth Gwyn Williams yn 8fed, Iwan Jones yn 10fed, David Jones yn 14eg a Gavin Roberts yn 15fed yn yr oedran canol (blwyddyn 10 ac 11).

Yng ngystadleuaeth y bechgyn iau daeth Urien Deiniol yn 7fed.

Yn rhedeg i'r merched oedd Iona Hughes, 30ain a Sarah Perin yn 31ain yn ras y merched iau.

Braf gweld fod y traddodiad o redeg Traws Gwlad yn dal i gael ei feithrin. Llongyfarchiadau pawb.

Parti Pendalar Diolchiadau

Eisoes rhoddwyd ein gwerthfawrogiad i rai cwmnïau lleol. Hoffwn hefyd ddatgan ein diolchiadau i'r gweddill a fu mor hael eu cyfraniad:

Blodau Racca, Penisarwaun; Siop Spar, Llanrug ac hefyd Gareth a'i Gwmni, Cyfreithwyr; Gwerthwyr Tai Dafydd Hardy; Cymen Cyf; Gwesty'r Celt; Clwb y Paradox; Caffi Cei; ASC Sports; Cwmni Manweb; A.O. Roberts a Chwmni Gwastraff Môn.

Arian i Gymor



Gwawr Hughes yn cyflwyno'r siec Roberts ac

Mae'n arferiad gennym fel ysgol i gyfrannu'r arian a gesglir ar Noson Garolau'r Ysgol yn Eglwys Sant Padarn i elusen, ac eleni fe aeth cyfraniad y disgyblion, rhieni a staff yr ysgol a chyfeillion y gymuned i elusen Cymorth Cristnogol.

Daeth Branwen Nicholas draw i wasanaeth boreol yr ysgol ar Chwefror 2 a chyflwynwyd hi â'r siec gan aelodau o'r chweched dosbarth.

Bydd yr arian yn mynd tuag at waith a phrosiectau arbennig yng ngwledydd y trydydd byd.

Estynnodd Ms Nicholas ei diolch i bawb a'i phleser o gael y gwahoddiad i dderbyn yr arian.

Chwaraeon



Chwarae Rygbi i Ogledd Cymru

Llongyfarchiadau i Owain Sion Williams a David Herbert ar gael eu dewis i'r tîm -16. Pob lwc iddynt yn y dyfodol.

Pawb wedi blino, ond wedi mwynhau'r gwyliau'n fawr.

Tîm Pêl-droed Ysgolion Gwynedd

Cafodd Owain Williams, Chris Holdsworth, Alistair Addison ac Owain Morris eu dewis i'r tîm -15 i chwarae yn erbyn Ysgolion Powys yn ddiweddar. Cyfartal oedd y gêm 3-3 gydag Owain yn sgorio un o'r goliau.

Da iawn hogia, daliwch ati.

YSGOL BRYNREFAIL

h Cristnogol



ymghyd ag Elfed Morris, Michelle
ed Roberts.

Tocyns Tesco

Unwaith eto mae'r ysgol yn casglu'r tocynnau i gael offer cyfrifiadurol i'r disgyblion. Apeliwn atoch i gefnogi'r ymgyrch fel yn y blynyddoedd a fu.

Llynedd fe gafwyd cyfrifiadur Apple Mac, ac eleni fe ofynnwn am eich cefnogaeth unwaith eto. Bydd Mrs June Owen, Llyfrgellydd yr ysgol yn falch iawn o dderbyn eich cyfraniad.

Ocsiwn Addewidion

Ar nos Fercher, Ebrill 5 bydd Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail yn cynnal Ocsiwn Addewidion.

Os hoffech gyfrannu mewn unrhyw ffordd cysylltwch â'r ysgol, fe werthfawrogi pob cyfraniad yn fawr iawn.

Cyngerdd y Goreuon



Dewiswyd pum disgybl o'r ysgol i gymryd rhan yn y cyngerdd arbennig a drefnwyd gan yr 'Associated Board of the Royal School of Music' yn Neuadd Pritchard Jones, Bangor ar Chwefror 14 yn dilyn eu llwyddiant yn yr arholiadau cerdd yn ddiweddar: Ceri Wyn Jones 8i - piano; Dafydd Pritchard 10i - piano; Ifan Dafydd Owen 7i - cornet; Kate Beard 10i - piano; Elfed Morris 12 - piano.

Llongyfarchiadau iddynt oll a da yw gweld bod traddodiad cerddorol ein hardal mor gryf ac erioed.

Apel Steffan Price Jones, Llanrug

Roedd disgyblion yr ysgol yn awyddus iawn i gyfrannu tuag at yr apel yma. Mac Steffan yn fachgen lleol ac yn mynychu Ysgol Pendalar, sydd â chysylltiadau agos iawn ag Ysgol Brynrefail.

Hoffwn ddiolch i rieni a disgyblion yr ysgol am eu cyfraniadau hael.

Seren y Teledu



Ar y ffordd adre o'r ysgol ar y bws oeddwn i pan gefais andros o sioc! Neidiodd Aled Jones ar y bws gan ddweud ei fod yn chwilio am Mari Wyn. Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd yn mynd ymlaen ond ar ôl sgwrsio cefais wahoddiad i fynd i Gaerdydd i ymddangos ar y rhaglen newydd 'Ar y Bocs'.

Roedd yn brofiad gwych ac yn un newydd oherwydd nad oeddwn wedi canu gyda band a saxophone o'r blaen, ac hefyd roedd y gân, sef 'ballad' yn ddiethr i mi. Cân o'r sioe 'Lluch yn ein Llygaidd' yn sôn am wraig

wedi darganfod fod ei gŵr yn twyllo'r werin, hithau'n tybio a oedd yn ei adnabod wedi'r cyfan. Ond y fodrwy ar ei llaw yn ei gwneud yn gaeth a bod rhaid iddi dderbyn y sefyllfa, er gwell neu er gwaeth.

Roedd yn brofiad gwerth chweil gweithio gyda Aled Jones a phawb o'r cwmni teledu yn fy ngwneud yn gartrefol iawn. Braint yn wir a diolch am y gefnogaeth a gefais gan bawb.

Mari Wyn Bl. 13

Bydd Mari yn ymddangos ar y rhaglen 'Am y Gorau' yn y dyfodol agos. Pob lwc iddi.

Gala Nofio'r Urdd

Yn y rhifyn olaf gwelwyd criw yn cychwyn am Lanelli i'r Gala Nofio Cenedlaethol.

Penderfynodd y criw deithio i'r De y noson flaenorol er mwyn bod yn ffres y bore canlynol, ac yn wir fe dalodd hynny ar ei ganfed!

Llwyddodd y pedwar disgybl ar ddeg i ddychwelyd ag un fedal

ar bymtheg! Enillwyd deg medal aur a chwe medal efydd — camp yn wir! A hynny trwy Gymru gyfan.

Llongyfarchiadau calonog i bawb ar eu perfformiad clodwiw, ac yn arbennig felly i gapten y tîm, Eifion Williams, am roi arweiniad mor wych.



Aelodau'r tîm llwyddiannus: Eifion Williams, Gareth Jones, Ceirion Owen, Joe Hill, Phillip Lynes, Robin Thomas, Iwan Jones, Sion Humphreys, Gwion Jones, Sioned Jones, Bethan Mackinnon, Cadi Osler, Nia Jones, Gemma Jones.

O'r dudalen gefn

wnaeth o apelio rywbyrd! Os ydy'r gŵr hwnnw yn dal yn fyw, mae yno stori bapur newydd dda i rywun.

Yna'r gêm. Everton a enillodd o 1-0, a'r gôl wedi ei sgorio gan Tony Kay, 'wing-half' talentog iawn. Yn anffodus, nid ei sgiliau pêl-droed a enillodd le iddo yn hanes y gêm ond ei garchariad yn ddiweddarach am 'fixio' canlyniadau gemau!

Yn nhim Everton roedd y dewin main o Ffynnongroew, Roy Vernon, smociwr di-stop ond partner gwyh i arwr Goodison, Alex Young. Yn y gôl roedd Gordon West, un a nadodd un o hogiau Môn, Owain Hughes o Frynsiencyn, rhag gwneud ei farc rhwng y pyst yng Ngoodison.

Ond y 'seren' oedd yr hen ŵr 50 oed yn gwisgo rhif saith coch a gwyn Stoke. Yr unigryw Stanley Mathews. Roedd yn hŷn na dad, ac yn chwarae ar y lefel uchaf. Dyma arwr y Cup Final 10 mlynedd ynghynt. (Er clywais Stan Mortensen, a sgoriodd deirgwaith y diwmod hwnnw, yn sôn am ei chwerwder o golli sylw dyladwy yn 'Ffeinal Mathews'.) Hoeliwyd fy sylw, gan mai cyw asgellwr i dîm yr ysgol oeddwn i yr adeg hynny. Roedd ei sgiliau o drafod pêl yn rhyfeddol, a'r gallu i groesi'r bêl i rannau peryglus o'r blwch cosbi. Yr oedd ei ffitrwydd yn anhygoel.

Yr atgof arall oedd y parch mawr a ddangosai'r dorf a chefnogwyr y ddau dîm ato. Ac yntau'n seren tybed a fuasai o yn darged y terasau heddiw? Roedd un o 'sêr' y gêm wedi neidio o lyfr pêl-droed anrheg Nadolig i gig a gwaed y maes. Dyna'r unig adeg i mi weld Mathews (does dim angen rhoi ei enw llawn.) Wn i ddim a oedd rhai ohonom yn dyfynnu Olivier yn yr ysgol y Llun canlynol. Yn sicr, roedd nier ohonom ni'r bechgyn yn cadw'r bêl tenis tipyn agosach i'n traed, yn gollwng yr ysgwydd chwith, ac yn 'driblo' ar y tu allan yn ein gêm ar cae ochr amser chwarae. Dewin oedd Mathews. Beth fuasai'i werth heddiw, ar ac oddi ar y cae, yn oes y teledu a'r

noddi hael? Wn i ddim, ond yn fy meddwl rŵan mae'r dyn main, y shorts hir, y gwallt wedi ei gribo yn ôl, a'r bêl yn sownd yn y droed dde yna. Ai fo oedd y gorau. Wn i ddim, ond yn sicr roedd yn 'seren' yn wir ystyr y gair. Dim ond yr arbennig sy'n dylanwadu ac aros mewn cof plentyn. 'Digwyddodd, darfu megis seren wib'.

Pigion wrth Basio

Dyfarnu gêm cwpan -15 rhwng Llanberis a Bethesda fûm i'n ddiweddar. Gêm dda iawn ar Gae Ddôl, gyda'r Darrans yn ennill yn haeddianol yn y diwedd. Roedd ymddygiad y ddau dîm i'w ganmol. Roedd un o chwaraewyr Bethesda yn denu sylw gyda throed chwith ddawnus iawn. O holi, yr ateb gefais i oedd 'Ti'n gwybod pwy ydy'i daid o?' Emrys Coch. Emrys Owen, 'centre half' Bethesda a Llanllechid yn y 60'au. Beth fuasai Emrys yn feddwl amdanaf, yn sôn am gêm rhwng y Darrans a'r Howgets ac yn canmol yr ymddygiad. Y gêm yn mynd yn 'feddal' efallai.

Roedd un peth yn fy nharo wrth deithio o'r gêm. Heb ail dîm Llanberis, ble mae rhai o chwaraewyr dawnus -15 Llanberis am gael gêm mewn rhyw dymor neu ddau. Ynteu, ydi'r hen broblem o golli chwaraewyr yn eu harddegau hwyr am barhau.

Diolch i Urien Deiniol am ei adroddiad am gêm Cwpan Cymru tîm Blwyddyn 9 Ysgol Brynrefail.

'Ar Chwefror 8, daeth tîm Ysgol Uwchradd Llandrindod i herio Brynrefail. Dyma rownd yr wyth olaf yn y gystadleuaeth. Oherwydd y tywydd oer a gwyntog, gêm digon blêr ond hynod o flinedig a gafwyd. Arwr y tîm cartref yn ein buddugoliaeth o 6-2 oedd Steven Lewis, a sgoriodd bedair gôl. Sgoriwyd y ddwy gôl arall gan Ceirion ac Eifion. Mae'r hogiau'n edrych ymlaen yn eiddgar i'r rownd nesaf — a gwell tywydd gobeithio!

Dalier sylw: Ar yr awyr

'Wrt dyfu'n hŷn, 'ma rhywun wastad yn meddwl y daw o i nabod 'i hun yn well: i ddeall pam mae o'n gneud rhai peth... ond yn aml 'does a 'nelo rheswm ddim oll â phenderfyniadau mawr bywyd.' Dyna un o wirioneddau mawr Radio Cymru, cynhyrchiad newydd Dalier Sylw a fydd yn teithio ledled Cymru yn y gwanwyn.

Mae'r ddrama, a ysgrifennwyd gan William Owen Roberts, yn olrhain hanes carcharor rhyfel ifanc o'r Wyddgrug a gydweithiodd â Lord Haw Haw trwy ddarlledu propaganda'r Natsïaid yn y Gymraeg 'nôl yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ai bradwr oedd o? Neu double-agent fel yr honnai cyn ei garcharu yn 1945?

Ymunwch â Helen Siôn, holwraig ifanc rhaglen radio

'Pawb a'i Farn' sy'n ceisio darganfod a yw 'gwirionedd ddoe' yn 'anwiredd heddiw'.

Cyfarwyddir y cast disglair — Owen Garmon, Phil Reid, Dylan Roberts, Einir Siôn a Karen Wyn — gan Gyfarwyddwr Artistig Dalier Sylw, Bethan Jones.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dod i weld Radio Cymru, cynhyrchiad olaf Dalier Sylw yn Theatr Gwynedd, Bangor ar nos Fawrth, 28 a nos Fercher, 29 o Fawrth am 7.30 yh.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Theatr Gwynedd (01248) 351708 neu Angharad Thomas, Dalier Sylw, Chapter, Heol y Farchnad, Treganna, Caerdydd CF5 1QE.

Ffôn: 029 20236650.

e-bost dalsylw@globalnet.co.uk.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Gŵyl Ddewi'r Amgueddfa

Cafwyd dathliad go arbennig yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis ar Ddydd Gŵyl Dewi. Cyflwynwyd 'Diwrnod Ellen' yn un o dai Fron Haul, sef portread o Ellen Williams, un o drigolion y rhesdai yn 1861. Bydd cyfle arall i weld y cyflwyniad hwn rhwng 11 o'r gloch a 3 o'r gloch ddydd Sul, Mawrth 26.

Menter Fachwen

Chwilio am waith?

- yn gallu dreifio?
- yn berchen car?
- ac ar y ffôn?

Rydym angen rhywun i'n helpu fel bo'r galw gyda gwaith coginio yn y tri chaffi sy'n perthyn i Menter Fachwen.

Gwaith goruchwyllo yn ystod absenoldeb staff a helpu ar adegau prysur.

Ymholiadau: 01286 872014
Tŷ Llundain, Cwm-y-glo

CHIROPODIST

Gwasanaeth

yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffon:

(01286) 675754

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang

o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi

mewn stoc — allwch chi

fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwm

Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudoll)

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

ADREF O'R YSBYTY. Da deall fod Mr Rex Faulker, Fron Dirion a Mr John Brennan, Afallon, wedi dod adref o'r ysbty. Hyderwn fod y ddau yn gwella a gobeithio y cawn eu gweld yn cerdded yr ardal unwaith eto.

YN YR YSBYTY. Drwg gennym ddeall fod Mr Ray Bowen, Tan y Marian wedi gorfod mynd i mewn yn ôl i Ysbyty Gwynedd ac ar hyn o bryd yn disgwyl cael ei symud i'r ysbty ym Manceinion. Gobeithio y bydd iddo gael llwyr iachad.

PROFEDIGAETH. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyr â Myfi Peris Evans, Sŵn yr Awel yn ei cholled o golli ei chwaer, sef Mrs Menna Peris Williams, oedd yn byw yng Nghonwy.

Y GANOLFAN. A wnaiff pawb ddal sylw os gwelwch yn dda. Unwaith eto mae yn rhaid dweud wrth yr ardalwyr nad yw Y Ganolfan ar gael ar y Sul, dim ond i gyfarfodydd cysegredig. Os gwelwch yn dda peidiwch a gofyn — drwy hynny ni fyddwn fel Swyddogion yn gorfod eich gwrthod. Dyma y rheol o'r cychwyn cyntaf ac y mae yn dal i sefyll.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Ar Ionawr 20 y gŵr gwadd oedd Mr Ralph Jons o Lanberis. Testun ei sgwrs ydoedd 'Yn gant a phump ac yn dal i fynd'. Sôn yr oedd wrth gwrs am injan stêm rheilffordd yr Wyddfa yn dwyn yr enw, Enid. Cawsom noson hynod o ddiddorol yn ei gwmni. Llywydd y noson oedd Miss Nellie Wyn Jones a thalwyd y diolchiadau gan Mrs Alice Griffith.

Ar Chwefror 17 cawsom wraig wadd i ymweld â ni, sef Mrs Eryl Roberts o Lanrug. Gweithiwr cymdeithasol wrth ei galwedigaeth ydyw a chawsom gryn dipyn o hanes ei gwaith — sef y pethau chwerw a'r pethau melys. Yr oedd

yn hynod o ddiddorol. Llywydd y noson oedd Mrs Betty Peris Roberts a thalwyd y diolchiadau gan y Parch Olaf Davies.

Ar Fawrth 2 fe fydd cinio Gŵyl Dewi yn y Marquis, Llanfairpwll. Os nad ydych wedi rhoi eich enw ac eisiau mynd, a fuasech mor garedig â'i roi i Miss Marian Jones mor fuan ag y mae modd. Tâl y cinio fydd £9.00.

YMDDEOLIAD. Dymuna Miss Marian Jones, Minallt ddiolch o galon i'w chydweithwyr, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, blodau, anrhegion gwerthfawr ac arian a dderbyniodd ar ei hymddeoliad o Dŵr Cymru (Hyder) ar ôl gweithio iddynt am dros 38 o flynyddoedd. Diolch yn fawr i'w ffrindiau a cymdogion. EGLWYS M.C. Ar ddydd Sul 13 o Chwefror, yr oedd yn brynhawn Sul tywyll iawn i aelodau'r Eglwys yma. Y Sul yma yr oeddyd fel eglwys yn gorfod pleidleisio i gael gwybod ple yr oeddyd fel aelodau am fynd i addoli yn y dyfodol, gan fod yr Henaduriaeth yn ein gorfodi i ddirwyn yr achos i ben yma yn Ninorwig. Rwyf yn sicr ein bod yn un o'r Eglwys cyfoethocaf yn yr Henaduriaeth, yn Eglwys hapus iawn a'r presenoldeb ar y Sul oddeutu 85 y cant, ond yn llygaid yr Henaduriaeth doedd hyn yn cyfrif dim. Gwell oedd ganddynt hwy werthu y festri, a'r tŷ sydd yn ymlyniad iddi, am gymun o arian na gadael inni fel aelodau eglwysig ei phrynu. Nid oeddyd am gymryd dim ceiniog o goffrau'r Eglwys. Gwrthodwyd inni hefyd gael mynd i addoli i'r Ganolfan er ein bod wedi bod yno droeon o'r blaen. Yr oedd yn ddigalon iawn gweld y mwyafrif o'r aelodau yn eu dagrau, rhai ohonynt dros eu pedwar ugain ac wedi eu bedyddio a'u magu yn yr Eglwys ar hyd eu hoes, ac wedi cyfrannu llawer iawn i'r achos.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn ystyried gosod meinciau ym mhob pentref drwy'r plwyf i ddathlu'r milflwydd. Mae'r aelodau lleol ym mhob pentref wedi awgrymu safleoedd addas. Bydd y Cyngor yn ystyried sut feinciau i'w gosod ac maent hefyd wedi ymgynghori â disgyblion Ysgol Brynrefail gan ofyn iddyn nhw ystyried cynllunio meinciau. Mae Menter Fachwen hefyd wedi dangos diddordeb yn y gwaith. Dywedodd y clare (Mr Salwyn Griffith) y gobeithir symud ymlaen gyda'r trefniadau yn weddol gyflym fel y gallir gosod y meinciau cyn yr haf.

Hysbyswyd i'r Cyngor dderbyn grant o £960 tuag at y gost o dorri

tyfiant ar lwybrau cyhoeddus y plwyf, a hefyd £50 am gymryd rhan mewn prosiect gyda chwmni MANWEB.

Roedd y Cyngor yn dal i ddisgwyl am wybodaeth gan y Cyngor Sir ynglŷn â Llwybr Cae Goronwy, Fachwen. Bwriad y Cyngor ydi cytuno i'r gwriad os y cedwir y Llwybr gwreiddiol yn agored yn ogystal.

Hysbyswyd y Cyngor fod y broblem ynglŷn â phlant o Gartref Noddfa, Deiniolen sy'n mynychu Ysgol Gwaun Gynfi, yn parhau, a bod hyn yn achosi problemau yn yr ysgol. Cafwyd ar ddaill fod y Cyfarwyddwr Addysg i gyfarfod â Llywodraethwyr yr Ysgol yn y dyfodol agos i drafod y mater.

Pleidleisiwyd ein bod fel Eglwys i ymuno â Chefn y Waun a throsglwyddo ein harian i'r Eglwys yma, a hefyd cawn gadw ein heiddo.

Yn yr oriau tywyll yma tybed pa wrth sydd heddiw o fod yn aelod o Eglwys Crist. Mae hwn yn gwestiwn yr ydym fel Eglwys yn gorfod ei ofyn, oherwydd y ffordd y cawsom ein trin gan yr Henaduriaeth.

CYDYMDEIMLAD. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyr i Mr Phillip Jones, Tŷ Capel Sardis a'r teulu yn eu profedigaeth. Mae Phillip wedi colli ei fodryb Dilys, chwaer ei dad, ym Mrynrefail yn sydyn iawn. Derbyniwch ein cydymdeimlad fel ardal.

LLWYDDIANT. Unwaith eto yr ydym yn cael y fraint o longyfarch Alex Lyles. Y mae Alex wedi ennill medal aur unwaith eto a hefyd enillodd fedal bres. Hefyd mae Phillip Lyles wedi ennill cwpan arian. Mae y ddau yma yn nofwyr da iawn. Well done, hogia, daliwch ati.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Elizabeth Lyles, Brian, Albert a Carole, Snowdon View, teulu y ddiweddar Julia Menai Dickinson gynt o Pant Gwyn, ddiolch i gymdogion a pherthnasau am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn ystod eu galar. Diolch yn fawr.

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri

Nos Fercher, Rhagfyr 8, 1999 aeth aelodau'r Ffederasiwn i Fowllo Deg i Seddon's Superbowl, Llandudno. Cafwyd noson hwyliog dros ben gyda 26 o dimau'n cystadlu.

Dyma'r canlyniadau: Yn gyntaf Llanybi 'A' gyda sgôr o 430. Yn ail Dyffryn Ogwen 'B' gyda 411 ac yn drydydd Llanybi 'B' gyda 408. Yr unigolyn gorau yn adran y bechgyn oedd Siôn Williams, Dyffryn Nantlle gyda sgôr o 151 a'r unigolyn gorau o adran y merched oedd Lowri Thomas, Dyffryn Ogwen gyda sgôr o 114.

Nos Fawrth, Ionawr 8, 2000 roedd Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Yr Alamo' yn y Rhaeadr Ewynnol, Betws-y-coed. Cafwyd noson yn llawn hwyl a gwnaethpwyd elw o £200 i'r Sir. Diolch yn fawr iawn i'r Rhaeadr Ewynnol am gael cynnal y noson ac hefyd i gwmni Theatr Bara Caws.

Nos Fercher, Ionawr 19 cynhaliwyd cystadlaethau Siarad Cyhoeddus y Sir.

Daeth aelodau ledled y Sir draw i Ysgol Uwchradd Botwnnog i brofi eu dawn siarad. Beirniaid y noson oedd Mr Emyr Parry, y Parchedig William Davies a Mrs Eysyllt Maelor.

Bydd enillwyr yr adrannau yn mynd yn eu blaenau i gynrychioli'r Sir ym Môn fis Mawrth.

Dan 16: Y siaradwr gorau oedd Guto Davies, Ysbyty Ifan. Cwpan Goffa Griff Roberts i Ysbyty Ifan 'B'; 2. Ysbyty Ifan 'A'; 3. Ysbyty Ifan 'C'; 4. Caernarfon.

Dan 21: Y siaradwr gorau oedd Manon Roberts, Caernarfon. Cwpan Goffa Griff Roberts i Ysbyty Ifan; 2. Dyffryn Madog; 3. Caernarfon.

Dan 31: Y siaradwr gorau oedd Eurwyn Jones, Caernarfon. Cwpan Goffa Griff Roberts i Gaernarfon; 2. Porthdinllaen; 3. Ysbyty Ifan.

Cyflwynwyd Cwpan W.J. Owen i glwb Ysbyty Ifan am ennill y nifer mwyaf o farciau yn y tair adran.

Nos Wener, Ionawr 28 cynhaliwyd Ffug Eisteddfod yng Nghlwb y Felin, Y Felinheli yn dechrau am 7.30 o'r gloch. Y beirniad oedd Bethan Evans ('Gwanas') ac arweinydd y noson oedd Michael Strain, Pwllheli.

Dydd Sadwrn, Chwefror 5 am 9.30 o'r gloch yng Nglynllifon fe gynhaliwyd Cystadlaethau Weldio, Gyrrwr ATV a Thractor y Flwyddyn. Y beirniaid oedd Mr Emrys Owen, Llangernyw; Mr Dafydd James, Coleg Glynllifon a Mr John Bumby, Pen-y-groes.

GWASANAETH NEWYDD AR GYFER

PARTIÖN : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU . . .

RHOSTIO MOCHYN



AR GYFER POB ACHLYSUR

★ Cig o ffermydd lleol

★ Partiön rhwng 40 a 400!

★ Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

★ Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188



ANGEN CODI CLODDIAU
O UNRHYW FATH
A FFENSIO?

Cysylltwch ag

WALIO

R. E. PRITCHARD
PARC, CARNEDDI, BETHESDA
(01248) 601216

A
FFENSIO

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwynndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Jennie Hughes, 17 Hafan Elan, ddiolch i'r teulu a'i ffrindiau oll am y blodau, cardiau a danteithion a dderbyniodd ganddynt tra yn Ysbytai Gwynedd ac Eryri.

COFION GORAU at Mrs J. Parry, Hafan Elan sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd, hefyd Miss Meirwen Roberts, Bryn Moelyn sydd ar hyn o bryd yn aros yn y Cartref ym Methel. Cofion gorau atoch ac i bawb sydd ddim yn dda. **PROFEDIGAETH.** Cydymdeimlwn yn llwyr â Mr Merfyn Hughes, Clawdd Newydd a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Bu farw Mrs Betty Hughes yn sydyn iawn yn ddiweddar.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd i Mr Dewi Williams, Stad Minffordd yn ei brofedigaeth yntau o golli ei fam yn y Felinheli ac i Ian Evans, Bryn Moelyn ar golli ei nain.

Bu farw Mr Gruffydd Jones, Y Bwthyn, Ffordd yr Orsaf. Brodor o Dŷ Capel, Rhyd ddu oedd Mr Jones a symudodd yma gyda'i wraig, Mrs Ella Jones. Estynnwn ein cydymdeimlad at y teulu: Mrs Jones, Elizabeth, Jean, Catherine (Morris, Clydfan) a Glyn (Gwenlyn, Stad Talybont) a'r wyrion a'r wyresau i gyd.

PEN-BLWYDD HAPUS. Dymuna cymdogion Hafan Elan ben-blwydd hapus i Mrs Betty Peris Jones, Rhif 19, sydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed ar Chwefror 26; i Mr Cledwyn Jnes, Rhif 4 a fydd yn 80 mlwydd oed ar Chwefror 27 ac i Mrs Doreen Fisher, a fydd hefyd yn 80 mlwydd oed ar Fawrth 3. Llongyfarchiadau i'r tri, fe fydd parti pen-blwydd i'r tri gyda'i gilydd yng Nghanolfan Hafan Elan ar Fawrth 1.

DOLCHIADAU. Dymuna Mrs Dilys Jones, 18 Hafan Elan ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Hefyd, fe ddymuna Mrs Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion ac i staff Ysbyty Gwynedd ac Eryri am bob gofal ar ôl ei damwain yn ddiweddar. Diolch i chi i gyd.

MARW. Bu farw Mrs Elizabeth (Betty) Hughes, Clawdd Newydd

yn frawychus o sydyn ar ddydd Llun, Ionawr 24, yn 60 oed. Yr oedd yn frodor o Gaernarfon, ond ar ôl ei phriodas â Merfyn, bu'r ddau yn trigo yn Oakdale, De Cymru cyn dychwelyd i Gaernarfon. Buont wedyn yn byw ym Methel, cyn symud i Dwl Clawdd ac yna adeiladu Clawdd Newydd. Tra yn ymgartrefu ym Methel bu ar staff cegin yr ysgol leol a chadwyd cysylltiad â'r pentref gan mai ym Methel (A) yr oedd yn aelod.

Yn ogystal â'i phriod Merfyn, gedy hefyd bedwar o blant, David, Eirian, Eleri a Gareth yn ogystal â'u teuluoedd a'r wyrion, Kelly, Katie, Danny, Melissa, Malcolm, Kierian, Sophie, Richard a Rhiannon.

Bu'r angladd ddydd Gwener, Ionawr 28 gyda gwasanaeth preifat yn y tŷ, a chyhoeddus yng Nghapel Bethel a mynwent Pentir. Gwasanaethpwyd gan ei gweinidog, y Parch Gwynfor Williams gyda Mrs Beti Owen wrth yr organ.

Dymuna Merfyn a'r teulu gydnabod gyda diolch diffuant y gefnogaeth anhygoel a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth sydyn o golli priod a mam. Diolchir o galon am yr holl ymweliadau, galwadau ar y ffôn, llythyrau, cardiau a'r rhoddion er cof at gapel Bethel (A).

PLAID CYMRU. Fe ddewiswyd Hywel Williams yn ddiweddar fel Darpar Ymgesydd Seneddol Plaid Cymru dros Arfon. Ef fydd yr ymgeisydd yn yr Etholiad Cyffredinol nesaf, pan fydd Dafydd Wigley AS yn rhoi'r gorau i'w sedd yn San Steffan er mwyn canolbwyntio ar ei waith yn y Cynulliad.

Bu Hywel Williams yn ymweld â Changen Llanrug nos Fercher, Chwefror 16 gan roi cyfle i etholwyr Llanrug ddod i'w adnabod.

CAPEL Y RHOS. Fore Sul, Chwefror 6 cynhaliwyd Oedfa Arbennig i Ddathlu'r Mileniwm o dan arweiniad y gweinidog ac athrawon yr Ysgol Sul. Cafwyd cyfraniad clodwiw iawn gan y plant a chyflwynodd y gweinidog Destament Newydd i bob un ohonynt (78 i gyd) i gofio'r

achlysur. Roedd y rhain yn rhodd gan deulu o'r Eglwys. Cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn gyda chanu emynau, cyd-ddarllen o'r ysgrythur ac edrych ar sefyllfa yr eglwys heddiw a bwriadau'r eglwys yn ardal Llanrug yn y flwyddyn 2000, ynghyd â Gweddi o Edifeirwch a chyd-ddarllen y 'weithred o ymrwymiad'. Cafodd y plant bleser mawr yn canu Gweddi'r Arglwydd ar y dôn 'Auld Lang Syne'.

Hefyd yn ystod y gwasanaeth gweinyddwyd y Sacrament o Fedydd (y cyntaf yn y mileniwm newydd yng Nghapel y Rhos) gan y gweinidog, sef bedyddio Ifan Huw Roberts, mab bach William a Wendy, 47 Heol Elinor, Caernarfon — ŵyr cyntaf Mr a Mrs Richard Thomas, Foelas, Llanrug.

Braf oedd gweld y capel bron yn llawn ac yn awr edrychwn ymlaen yn hyderus, yn nerth Duw, i'r dyfodol.

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, Chwefror 8 croesawyd pawb yn gynnes gan y llywydd, Ann Evans. Cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Myfi Roberts, Rhes Plastirion yn eu profedigaeth. Bu Pwylgor yr Anabl yn cynnal Distawrwydd Noddedig yn ddiweddar, a diolchwyd i Mrs Beryl Thomas am gynrychioli'r gangen. Yn ôl yr arfer, aelodau'r gangen fydd yn gyfrifol am y lluniaueth yn Eisteddfod Gylch yr Urdd ddydd Sadwrn, Mawrth 11 yn Ysgol Brynrefail. Byddai Meirwen ac Olwen yn ddiolchgar pe byddai'r aelodau sy'n fodlon darparu bwyd a chynorthwyo ar y diwrnod yn cysylltu â hwy.

Y wraig wadd oedd Eysyllt Harker, sy'n ymarferwraig Shiatsu iachael. Dechreuodd trwy esbonio mai system iechyd gyflawn sy'n rhyddhau a chryfhau ynni iachael naturiol y corff ydi Shiatsu, a dangosodd ei fod yn fodd i bobl ddeall a rheoli eu hiechyd eu hunain yn well. Mwynhaodd pawb y sesiwn ymlacio ar ddiwedd y cyfarfod.

Diolchodd Phyllis Ellis i Eysyllt am noson ddiddorol a diolchwyd i Mrs Cadwaladr, Mrs B Thomas, Mary, Ann a Margaret am y baned gan Pat. Mrs Cadwaladr enillodd y raffl.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fawrth 14 pan ddethlir Gŵyl Ddewi yng nghwmni Sian Wheway a Dafydd Roberts. Edrychwn ymlaen at groesawu Cangen Penrhosgarnedd atom.

Gan ei bod yn Ddiwrnod y Llyfr ar Fawrth 10 bydd yr aelodau'n cyfnewid llyfrau yn ystod y cyfarfod. Byddwn hefyd yn casglu llyfrau ail-law er mwyn codi arian at Ymchwil Cancr.

YSGOL GYNRADD. Dymunwn yn dda i aelodau'r Urdd fydd yn cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd yn ystod yr wythnosau nesaf.

Anfonwn ein cofion at Mrs Mai Davies, ein cogyddes sydd heb fod yn dda ei hiechyd yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Gwen Edwards, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Bethan McKinnon ar lwyddo mewn arholiad Piano - Gradd 5 yn ddiweddar.

Y Samariaid

Annwyl Olygyddion,

Fe ŵyr rhai ohonoch am y Ganolfan sydd gan y Samariaid ym Mangor. Bob dydd a nos mae rhywun yno ar ben arall y ffôn i wrando. Pobl sy'n teimlo fod bywyd wedi mynd yn faich annioddefol sy'n ffonio. Mae'r Ganolfan hon yn gwasanaethu Môn, Gwynedd a Chonwy — yr hen Wynedd. Fel pob dim arall mae angen arian i'w chynnal a Chyfeillion y Samariaid sy'n ceisio codi peth o'r arian hwnnw.

Fel Cangen Cyfeillion y Samariaid yn y rhan hon o Ogledd Cymru hoffem ofyn am help darllenwyr *Eco'r Wyddfa*. A fyddai rhai ohonoch yn fodlon trefnu rhywbeth bach fel bore coffi y gwanwyn hwn i gynorthwyo'r Samariaid? Nid ydym yn chwilio am symiau enfawr o arian; byddai pob punt yn help. Byddem yn gwerthfawrogi pob ymdrech. Byddai pob ceiniog yn mynd tuag at waith y Ganolfan brysyr hon.

Pe baech yn fodlon trefnu unrhyw beth yna byddem yn falch iawn o glywed gennych. Gyda chyfraniadau bychan o bob ardal buan iawn y byddai'r coffrau yn llawnach.

Yn gywir,

Geraint Huws Roberts
Ysgrifennydd y Cyfeillion
Erw Wen, Bron y De
Bangor LL57 4TW
(01248) 352726

**OSMOND SHAW
DEINIOLLEN**


**GWERTHU
- TRWSIO**
★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



**Cyrhaedddech mewn steil —
mewn cerbyd Rolls Royce**
ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833



SLIM CHWIM MEWN DIMI
heb lwgu na chwyso

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCHI HOLWCHI
ffonlwch (01286) 830609
— TENEUWCH —
SLIM CHWIM MEWN DIMI

**MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD**



BANGOR
(01248)
354646

Antur Waunfawr a Minnau

Eurig Wyn ASE

Roeddwn innau, gyda'r lluoedd eraill, yn festri Capel Bethel Waunfawr pan sefydlwyd Antur Waunfawr, ac mae Gwynn Davies, a drefnodd y cyfarfod yn parhau i fod yn Gadeirydd y Cwmni.

Mae dyfalbarhad Gwynn wedi bod yn bwysig ond cefnogaeth y pentref cyfan a olygodd fod y freuddwyd yn troi'n ffaith. Er i mi ymuno â'r pwyllgor gwreiddiol ymddiswyddais yn fuan ar ôl hynny, wedi gweld y gallwn fod o fwy o fudd fel cynghorydd, yn gweithredu oddi allan nag oddi fewn.

Mae yr Antur wedi bod yn ddibynnol iawn ar arian sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd i gynnal ei gweithrediadau a gobeithiaf fod fy ymdrechion innau i geisio newid strwythur Ewrop wedi bod o fudd i'r Antur a datblygiadau tebyg, a hwyluso'r broses iddynt i wneud ceisiadau am grantiau. Digon dweud yma fod gan yr Undeb Ewropeaidd, er ei rhagoriaethau, ei gelynyddion mawr hefyd.

Caf ddadleuon aml â chyfeillion sy'n galw eu hunain yn Ewro-sceptics ond mae swm a sylwedd gwrthwynebiad rhai ohonynt i'r Undeb Ewropeaidd yn troi o gwmpas rheolau Ewrop am 'liw pŷs slwtsh a siap bananas'. Rhaid codi uwchlaw meddyliau bach felly ac ystyried yr help gwirioneddol a gaiff megis yr Antur o gronfeydd Ewrop.

Mae Cymru gyfan yn derbyn dros £250 miliwn y flwyddyn o bwrs Ewrop. Fedrai Cymru, yn enwedig ei hardaloedd tlotaf, ddim byw hebdo. Os caiff Cymru yr arian a ddaw o statws Amcan 1 bydd y cyfraniad yn fwy sylweddol fyth, tua £2bn y flwyddyn. Gobeithiaf yn fawr, mewn cysylltiad â Phrif Weithredwraig weithgar yr Antur ac eraill, fedru siarlu rhywfaint o'r arian hwn i'r Antur a mentrau tebyg.

Ystyriwch sefyllfa'r Ynys Werdd. Mae'r Gwyddelod yn derbyn o gronfeydd Ewropeaidd yn ddigon agos i £650 y pen y flwyddyn, a phobol Cymru'n cael £37 y pen. Dyna'r gwahaniaeth rhwng gwlad a benderfynodd o'r dechrau ei bod yn wlad Ewropeaidd, ac a aeth ati i ddenu pob ceiniog posib, a Chymru, ar y llaw arall, Sinderela cenhedloedd bach Ewrop, sy'n dal i frwydro am statws cenedlaethol llawn.

Addunedwn felly yn y fileniwm newydd, i sicrhau i Cymru yr un hunan-barch â'n cymrodwr a chwiorydd ar draws Môr Iwerddon, a gadawn i'r Ewro-scepticiaid dagu ar eu pŷs slwtsh.

Cofnodi'r gorffennol i ddiogelu'r dyfodol



Lucie Willis a Tudur Jones gyda dau o'r patrymau pren.

Yn ddiweddar penododd Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis aelod newydd o staff i gynorthwyo gyda'r gwaith o restru a gwneud arolwg o gyflwr yr holl wrthrychau yng nghasgliad yr Amgueddfa.

Cychwynodd Lucie Willis, sy'n huanu o Gresffordd ger Wrecsam ac sy'n awr yn byw yn Y Felinheli, ar y gwaith ym mis Rhagfyr 1999 ac mae ganddi dasg enfawr o'i blaen, fe yr esboniodd.


'Mae'r casgliad yn cynnwys tua 8,000 o eitemau, a bydd y cyfan yn eu tro yn cael eu cofnodi ar gronfa ddata System Rheoli Casgliadau Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru.'

Cyn ymuno â'r Amgueddfa Lechi, bu Lucie, sydd â gradd BA (Anrh) mewn Archaeoleg o Brifysgol Durham yn ogystal a gradd MA mewn Astudiachau Amgueddfaol o Brifysgol Newcastle, yn gweithio yn Amgueddfa Werin Cymru fel Cynorthwy-ydd System Rheoli Casgliadau — gwaith a fwynhaodd yn fawr.

'Fy ngwaith yn Llanberis fydd casglu'r holl wybodaeth sydd ar gael am y casgliadau, gan gynnwys unrhyw hanes neu ffotograffau; nodi eu lleoliad yn yr Amgueddfa a llenwi cardiau gwrthrychau ar gyfer pob eitem. Byddaf hefyd yn nodi a oes angen gwneud gwaith cadwraeth arnynt.'

Mae gwaith Lucie yn allweddol i'r gwasanaeth a ddarperir gan yr Amgueddfa, fel yr esboniodd Tudur Jones, Swyddog Dogfennaeth Amgueddfa Lechi Cymru:

'Mae'n rhaid i bob Amgueddfa warchod ei chasgliadau a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu at y dyfodol. Un elfen bwysig o'r casgliad ehangach yw'r casgliad o gannoedd o batrymau pren, a bydd yn rhaid asesu pob un ohonynt. Rydym hefyd yn derbyn eitemau newydd yn rheolaidd. Gallwch weld felly mor bwysig ydy'r gwaith mae Lucie wedi ymgymryd ag o.' I gael rhagor o wybodaeth byddwch cystal â chysylltu â Julie Williams ar: Ffôn - (01286) 870630; Ffacs: (01286) 871906 ebost: wsmpos@btconnect.com



Beic 'di malu ac isio'i drwsio?
Mae Vnel Wil yn siŵr o blesio.
Am feiciau glân ail-law a phartiau,
Wel, yma cewch chi'r fargen orau.

**Cysylltwch â W. Jones
Waunfawr (01286) 650723**

Cyngor Cymuned Llanberis

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau, Chwefor 17 yn 'Angorfa'. Am resymau iechyd, penderfynodd y Cynghorydd Bert Parry sefyll i lawr o'r gadeiryddiaeth ac etholwyd y Cynghorydd Dei Tomos i'r gadair am weddill y flwyddyn. Croesawyd y Cynghorydd Trefor Edwards, cynrychiolydd yr ardal ar Gyngor Gwynedd, i'r cyfarfod, a diolchwyd iddo am ei holl waith ar ran y gymuned ers iddo gael ei ethol.

Roedd Cynllun Trafnidiaeth Llanberis wedi ei ddosbarthu ymlaen llaw i'r aelodau, ac er iddo gael ei gyhoeddi er 1994, ond heb ei wireddu, y teimlad cyffredinol oedd fod llawer o'r cynigion ynddo yn berthnasol heddiw. Etholwyd is-bwyllgor yn cynnwys y Cynghorwyr Trefor Edwards, Dei Tomos, Ken Jones, Gavin Allsupp, Olwen Gwilym a'r clerc i drafod yr argymhellion yn y cynllun, ac i gyflwyno adroddiad llawn i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Mae'r lôn sy'n arwain o'r Stryd Fawr i'r groesfan ar y ffordd fawr wedi dechrau cael ei galw yn 'Honey Farm Lane' ar ddogfennau swyddogol. Mae'r Cyngor yn awyddus i wybod beth yw enw Cymraeg cywir y lôn hon. Mae, ar gyfnodau, wedi cael ei hadnabod fel Lôn Plisman a Lôn Doman. Gofynnir i drigolion Llanberis gysylltu ag aelodau o'r Cyngor neu'r Clerc os oes gwybodaeth ganddynt am yr enw cywir am y lôn.

Rhoddwyd ystyriaeth i bedwar cais cynllunio. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais am newid defnydd adeilad o'r tu cefn i 50 Stryd Fawr i safle mânwerthu, er bod pryderon wedi eu mynegi ynglŷn â chulni'r lôn yn arwain tuag ato. Nid oedd gwrthwynebiad chwaith i gais am dipio gwastraff anadweithiol ar dir gerllaw Lake View. Penderfynodd y Cyngor wrthwynebu'r cais i adeiladu a lleoli glanfa i gychod ar ochr y pentref o Lyn Padarn ar sail diogelwch a sail amharu ar yr amgylchedd. Roedd y Cyngor hefyd yn gwrthwynebu adeiladu pont droed dros Afon Nant Peris i'r de o'r maes parcio yn Nant Peris. oherwydd ei bod yn debygol o hwyluso mynediad i lwybr troed newydd arfaethedig a fyddai, ym marn y Cyngor, yn amddifadu trigolion lleol o'r siawns o gael llwybr/palmanant diogel o Nant Peris i'r Nant Ucha.

Nid yw'r gwaith ar ledu ac ymestyn llwybr y fynwent wedi ei ddechrau oherwydd y cyfnod hir o dywydd gwlyb, ond gobeithir y bydd y gwaith yn cael ei gwrblhaw yn ystod mis Mawrth.

Nid oedd yn bosibl rhoi ystyriaeth i geisiadau am gymorth ariannol oddi wrth wahanol fudiadau oherwydd fod rheolau'r Cyngor yn nodi fod angen gwneud y fath geisiadau cyn diwedd Tachwedd ym mhob blwyddyn ariannol.

Addawodd y Cynghorydd Trefor Edwards drefnu i osod arwyddion 'Dim Cŵn' yng nghae chwarae Dôl Elidir, yn dilyn adroddiadau fod rhai perchnogion cŵn yn caniatáu i'w hanifeiliaid faeddu ar lain chwarae'r plant.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod diwethaf o'r Sefydliad a gynhaliwyd yn Festri Croesywaun ar Chwefror 3, croesawodd Mrs Mair Williams, y Llywydd, Mr Cecil C. Lodge o Betws Garmon. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo, gyda sleidiau, ar hanes 'Rheilffordd Ucheldir Cymru'. Dangosodd yr aelodau ddiddordeb mawr yn ei sgwrs a gofynnwyd llawer o gwestiynau ar yr ail agor o'r lein o Gaernarfon i'r Waunfawr. Diolchodd y Llywydd i Mr Lodge. Rhoddwyd y raffl, a enillwyd gan Mrs Mair Parry, gan Mrs Betty Griffith. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fawrth 2 pryd y ceir sgwrs gan Mr Meirion Hughes, Caernarfon ar 'Ysgol Jôs Bach'. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr mis Ionawr: £40: Mr T.E. Jones, Cartrefle; £25: Dr Huw Roberts, Liverpool House; £10: Mr Iolo Huws Roberts, Bodrida.

DIOLCH. Ar gyrraedd fy mhedwar ugain mlwydd oed derbynias gymaint arddangosiad o ewyllys da fel na allaf obeithio diolch i bawb yn unigol. Roedd y cyfarfod yng Nghapel y Waun yn ysgytwol ac ni allaf fyth anghofio'r amgylchiad na'r caredigrwydd a'i symbylodd.

Efallai fod soned a gyflwynais yn ddiweddar fel aelod o dîm Talwrn y Beirdd gystal adlewyrchiad â dim o fy nheimpladau. Diolch yn fawr, fawr.

DIOLCH. Llawer o ddiolch i swyddogion capel Croesywaun am ganiatáu i ni gael defnyddio'r festri fel man plygu'r rhifyn mis diwetha o'r Eco. Diolch i'r rhai ddaeth i helpu gyda'r plygu hefyd. CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu y ddiweddar Mrs D. Williams, Llys Seibiant a fu farw yn dawel yn Ysbyty Eryri.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Bona Bathe, Stad Tref Eilian. Cydymdeimlwn â'i deulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn â Mrs Alice Hughes, 3 Bryn Golau yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Gracie, a oedd yn byw yn Ne Cymru.

DIOLCH. Dymuna Mrs Hughes ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Dymuna Mrs Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen a theulu y ddiweddar Mrs M. Owen, Tref Eilian ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn.

GWELLA. Da deall bod Huw Gwilym, Llidiart Wen yn gwella wedi iddo gael llawdriniaeth i'w ben-glin yn Ysbyty Gobowen.

ADREF O'R YSBYTY. Gorfu i Megan, merch fach Delyth a Phill Lowe, Ger y Ffynnon aros yn yr ysbyty am ychydig ddyddiau. Gobeithio ei bod yn gwella erbyn hyn.

LLONGYFARCHIADAU i Pryderi Thomas, Stad Tref Eilian ar dderbyn Tlws Eisteddfod Ysgol Syr Hugh Owen am ei gyfraniad i gerddoriaeth yn yr ysgol.

LLWYDDIANT. Fel pentref, ymhyfrydwn yn llwyddiant y grŵp 'Big Leaves'. Yn ystod seremoni yng Nghaernarfon i grwpiau roc a phob Cymraeg yn ddiweddar, dyfarnwyd pedair gwobr iddynt — am fod yn fand gorau'r flwyddyn, 'band byw' gorau'r flwyddyn, am gân y flwyddyn a dderbyniodd Meilir Gwynedd wobr am ei gyfraniad i gerddoriaeth. Ac yn ôl y rhagolygon mae mwy o lwyddiannau i ddod i'r grŵp. Da iawn chi, hogia.

LLONGYFARCHIADAU i Wena Lyn Williams, 5 Ael y Bryn ar lwyddo yn arholiad Piano Gradd 2.

DYMUNWN YN DDA i aelodau'r Urdd fydd yn cystadlu yn Eisteddfodau yr Urdd yn ystod yr wythnosau nesaf.

DYMUNA Norman a theulu'r ddiweddar Katie May Williams, Llidiart Wen, Waunfawr (gynt o 10 Bron Eryri, Rhosgadfan) ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch arbennig i Dr Huw Roberts a gweddill staff Meddygfa Waunfawr a'r tîm gofal cartref; i'r Parchedig Ifan Roberts a'r rhai a fu'n gwasanaethu yn y capel ac i'r ymgymerwr, Mr Gwyn Lloyd Griffiths, Paragon, Pen-y-groes. Diolch hefyd am y rhoddion tuag at y feddygfa.

LLYFRGELL. Bydd y Llyfrgell Deithiol yn galw yn Ystâd Trefeilian ar ddydd lau yn fisol rhwng 10.15 a 10.55 o'r gloch yn lle yr arosfan wrth yr Eglwys, mewn ymateb i gais gan y Cyng Eurig Wyn ar ran trigolion Waunfawr.

Blodau yn y Gaeaf Gwraig tŷ (ddim yn yr ardd)

Fuasai neb call yn gwneud dim ond meddwl am yr ardd yr adeg yma o'r flwyddyn ond mae rhai manteision i fisoedd y gaeaf. Dyma fisoedd y rhew a'r eira, a dywedir gan arddwyr mai gwrtaith dyn tlawd ydi'r rhew a'r eira. Felly, mae rhywbeth da ym mhob peth. Mae dipyn o gwyno am y gwrteithiau artiffisial ond er hyn i gyd mae yna ardd fach liwgar yn y gegin.

Y mae'r Mynawyd y Bugail yn dal i flodeuo ond rhaid eu tynnu o'r ffenestr pan fo'n rhewi. Cefais ddau bot o Betsan Brysur yn anrheg hefyd a maent yn blodeuo'n dda o hyd. Un binc a choch. Hen ferch ddigon piwys ydi Betsan ac yn hawlio gofal - dim gormod o ddŵr. Cefais flodau Mihangel mewn pot bach hefyd sydd wedi rhoi llaewr o liw ond mae'n nhw yn wydn, ac ânt allan yn y gwanwyn.

Un anrheg arbennig iawn a gefais gan ffrind yw Amarylis. Mae'n rhoi sioe ardderchog yr adeg yma o'r flwyddyn. Diolch am flodau i sirioli.

COFIO'R FAENOL?

Mae'r BBC yn Mangor yn paratoi cyfres o raglenni teledu ar Stad y Faenol, Felinheli. Er mwyn creu darlun cyflawn o'r hanes rydym yn awyddus i sgwrsio gyda unrhyw un a fu â chysylltiad â'r Stad yn y gorffennol. Efallai y buoch yn gweithio yno neu fod ganddoch gysylltiad â'r teulu, neu tybed ydych chi'n un o gyn chwarelwyr Dinorwig sydd erioed wedi bod y tu ôl i wal y Stad? Mae gennym hefyd ddiddordeb mewn dod o hyd i hen luniau neu ffilm o'r teulu neu'r Stad.

Os y medrwch chi helpu mewn unrhyw ffordd cysylltwch â Llinos Wynne, BBC, Bryn Meirion, Bangor. Ffôn: (01248) 374972.

DRAENOG

Glywsoch chi am y wraig honno y buo raid iddi fynd i'w gwaith yn ei dillad gorau? Wedi bod mewn parti Dolig oedd hi, ac wedi aros dros nos efo'r teulu. Pan gyrhaeddodd adref yn y bore roedd wedi anghofio gorriad y tŷ yn nhŷ'r ferch. Bu'n rhaid iddi fynd i'w gwaith fel cynorthwy-ydd cartref yn ei dillad gorau — het a chôt a thlysau a'r cwbl.

Ein Hardal Ni

Hynaws Feuryn, 'mhob Talwrn cefais i
Destun rôl gyfle i wneud sport a sioe;
Am unwaith, gwrthodwnaf eich abwyd chwi,
Rhaid i'r chwerthin heno gymeryd hoe:
Er cymaint grym y dewin yn Rhyd-ddu
Mil cryfach hud ei frawd ym mhentre'r Waun,
Nid cip o'r nef roes hwn i un na fu
Erioed ymhell o'r fan, ond treiglo'r maen
A gwneud y nef a minnau'n ddiwahân
Ar gramen sâl o gors a gwaundir moel,
Gweirgloddiau llwm y myrdd tyddynnod mân
O gylch fy Methel ar lechweddau'r Foel:
Rwyf i a'r pridd yn un yn nhir fy mro;
A methais â gwamalu, am y tro

Gwynn Davies

CEIR ADAM



HURIO PREIFAT
YN UNIG



LLEOL NEU HIRBELL



LLANBERIS 871539



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC

WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

Hiraethu am Athrawes

Ar gychwyn canrif newydd ac ar drothwy canmlwyddiant Ysgol Brynrefail eleni, diddorol oedd canfod y llun camera cyntaf o'r hen ysgol, a hynny ar gerdyn post swyddogol yr ysgol yn 1905. Cafwyd hyd i'r cerdyn yma gan gyn-ddisgybl o'r ysgol, sef Dr D. Gareth James (mab Ieuan L. James, Prifathro'r ysgol o 1956-1968) mewn ffair hen bethau yn Farnham, Surrey fis Medi y llynedd. Roedd Gareth, yn ôl ei arfer, yn chwila am hanes ei gartref yn Aldershot, a oedd ar ddechrau'r ganrif yn dafarn y 'Duke of York', pan ddaeth o hyd i'r cerdyn, a'i brynu ar unwaith am hanner can ceiniog! Ar ddechrau'r ganrif roedd anfon cerdyn post, a llun arno, bron mor ffasiynol ag anfon E-bost heddiw!

Ymddengys bod y cerdyn wedi ei anfon i Miss May Ellen Owen, athrawes gyntaf yr ysgol o 1900 hyd 1904, wedi iddi symud i'r 'Holywell County School'. Lladin oedd ei phwnc ac uchel iawn oedd ei pharch yng ngolwg Mr J.R. Foster, y prifathro.

'Ni chefais erioed athrawes a fedrai reoli dosbarthiadau o fechgyn rhwng pymtheg a deunaw mlwydd oed mor esmwyth ac effeithiol.'

Roedd Liz Ingham yn ddisgybl 'Form 3' pan anfonodd y cerdyn ac, yn amlwg yn hiraethu am ei

hathrawes. Mae'n debyg fod Miss Owen yn dipyn o ffefryn gan Liz gan mai hi sefydlodd y tîm hoci cyntaf, a dewis Liz, yn dair ar ddeg oed, i'r freintiedig safle o fod yn gôl-geidwad.

Dyma beth sydd wedi ei ysgrifennu ar gefn y cerdyn:

*Dear Miss Owen,
I thought I would send you a post-card of the old school, and hope you hav'nt (sic) received one like it before. They only came out last week, and I think that they are very good indeed. The girls standing in front of the school are the present Vth Form, while the boys are the 2nd and 3rd Forms and one or two of the Fifth. I am one of those on the steps. I wonder if you can make us out. The new teachers are very nice with us all, but we will like you best and the girls often talk of you and say how glad they would be to see you back. Our school is breaking up next Wednesday week. My mother and little sister are asking for you very much. They both only arrived home a fortnight ago after 4 mths visit in S. Africa. Best love from all at home.*

*Yours sincerely
Liz Ingham (?)*

Yn ôl y cofnodion yn 'Hanes Ysgol Sir ym Mrynrefail' o waith y Parch John Pritchard, Llanberis a gyhoeddwyd gan y Llywodraethwyr yn 1940, roedd



Y cerdyn post gyda'r llun cynnar o Ysgol Brynrefail.

pedwar disgybl o'r cyfenw Ingham, sef Thomas Henry (ddaeth i'r ysgol yn 1900), Lizzie (yn 1902), Moses (yn 1907) a Tilly (yn 1918) yn dod o ardal Ebenezer. Tybed a oes rhai o ddarlennwyr yr Eco yn cofio'r teulu a/neu yn gwybod eu hanes

diweddar? Tybed a aeth y teulu i Ddde Affrig ar ôl yr ymweliad o bedwar mis yn 1905? Os oes gennych wybodaeth yna ffoniwch neu cysylltwch â Rhiannon Roberts (James gynt) Cefn Rhos Isaf, Caeathro. (Ffôn: 01286 672215).

GRADD ALLANOL Prifysgol Cymru

BLWYDDYN NEWYDD CYFLE NEWYDD

Ers 1980, enillodd mwy na 50 o fyfyrwyr radd BA drwy ddilyn cyrsiau rhan-amser dan ofal rhai o ddarlithwyr mwyaf profiadol Prifysgol Cymru, Aberystwyth.




Os hoffech CHI wireddu breuddwyd oes a bod yn un o raddedigion y mileniwm newydd, anfonwch NAWR am restr gyflawn o'r cyrsiau a gynigir, a manylion pellach.



Prifysgol Cymru
Aberystwyth
The University of Wales

P Lynne Williams
Cyfarwyddwr Academaidd y Radd Allanol
Prifysgol Cymru, Yr Hen Goleg
Stryd y Brenin, Aberystwyth
Ceredigion, SY23 2AX
Ffôn: 01970 622050 E-bost: ppj@aber.ac.uk
Tudalennau ar y We:
<http://www.aber.ac.uk/~cymwww/Allanol/>



Neges Liz i Miss Mary Ellen Owen wedi ei bostio ar 10 Ebrill, 1905.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

**GORSAF BETROL
BERAN**
DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

**IEUAN
WILLIAMS**
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr
a phlant ysgol.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DYMUNA Sian Jones ddiolch o waelod calon am y blodau a'r llu cardiau a dderbyniodd. Roedd y cyfarchion yn galondid mawr iddi ac yn sicr byddant yn gysur yn yr wythnosau o driniaeth sydd o'i blaen.

DIOLCH. Dymuna Robin Owen ddiolch i bawb am y dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 18 oed. Diolch yn fawr iawn i bawb.

CLWB BRO BETHEL. Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yn Festri Bethel gyda'r Parchedig Gwynfor Williams yn llywyddu. Anfonwyd cofion cynnes iawn at ysgrifennydd y Clwb, sef Mrs Bessie Ellis. Cafwyd gwybodaeth gan y trysorydd fod y Clwb wedi derbyn rhodd drwy law Mr Richard Lloyd Jones yn dilyn casgliad yn ystod gêm bêl-droed a chwaraewyd o gwmpas y Nadolig. Diolchwyd iddo gan y Parch Gwynfor Williams am gofio am y Clwb. Mr Rol Williams o Waunfawr oedd y gŵr gwadd, a chafwyd ganddo sgwrs hynod o ddiddorol am hanes Michael Marks a Tom Spencer, y ddau yn byw yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn cychwyn busnes 'Penny Bazaar' yn Leeds. Datblygodd y busnes bach yna i un o'r cwmnïau mwyaf, sef Marks and Spencer. Mrs May Griffiths a Mrs Mary Hughes oedd yng ngofal y te.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i'r ddwy ganlynol ar lwyddo mewn arholiad piano yn ddiweddar: Lois Wyn Hughes, Erddig - Gradd 2 a Ffion Williams, 20 Y Ddôl - Gradd 3. CLWB 200 Y NEUADD GOFFA. Enillwyr mis Rhagfyr oedd £20: Richard Parry, 4 Rhos Lan (34); £10: Heather Hughes, Coed Bolyn (5); £5: Lona Jones, 6 Stad Eryri (78), Ann Mercer, Roslyn, Tan-y-ffordd (165), Margaret Druce, Arfryn, Tan-y-cae (183), Bert Japheth, Stryd Garnon, Caernarfon (14), Sulwen Thomas, 1 Stad Eryri (99), Mair Jones, Cilan, Tan-y-cae (43), Rhian Hughes, Erddig, Rhos Lan (86), Alwyn Jones, Bro Dawel, Rhos Lan (148).

Enillwyr Ionawr oedd: £20: Nan Owen, Berwyn (52); £10: Idris Jones, Tyddyn Oer (115); £5: Eunice Roberts, 4 Y Rhos (218), Gwilym Jones, Cynfal, Y Post (93), Joyce Pugh, 9 Tan-y-buarth (130), Ceinwen Williams, Cefn Gwyn (51), Ceridwen Evans, Parciau, Rhos (195), Eilan, Glasynys, Tan-y-buarth, Gwynfor Morris, Treflve (196), Gwyneth Price, Bro Eglwys (94).

BEIRNIADU. Llongyfarchiadau i Lowri Williams ar gael ei gwahodd

i feirniadu dawnsio disgo yn Eisteddfod Sir yr Urdd Conwy. Dymuniadau gorau iddi hefyd yn ei swydd newydd yn ardal Portsmouth.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Fawrth, Chwefror 15 cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr Vaughan Hughes. Cafwyd sgwrs ddifyr ac addysgiadol ar Eisteddfodau Cenedlaethol Môn yn ystod y ganrif ddiwethaf. Diolchwyd i Mr Hughes gan Mr Martin Eckley.

Nos Fawrth, Chwefror 22 aeth nifer o'r aelodau i gyfarfod â Chymdeithas Lenyddol y Bontnewydd.

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r gangen ar Chwefror 9 yn neuadd yr ysgol gynradd o dan lywyddiaeth Ann Lewis. Dymunwyd yn dda i Margaret Eckley yn ei chartref newydd ac i Mair Read mewn swydd newydd.

Y gŵr gwadd oedd Emlyn James a threuliwyd orig ddifyr yn gwrando arno yn sôn am Galigraffi. Diolchwyd iddo ar ran yr aelodau gan Marnel Owen. Gofalwyd am y te gan June Owen a Margaret Rees. Enillwyd y raffl gan Sharon Owen.

Y mis nesaf bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi a phen-blwydd

y gangen yn 25 oed yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd ar nos Fercher, Mawrth 8 yng nghwmni Mair Price, y llywydd cyntaf. CYDYMDEIMLO. Ddydd Mawrth, Chwefror 22 yn 94 mlwydd oed bu farw Mrs Elizabeth J. Jones, 2 Y Ddôl. Estynnir pob cydymdeimlad â Pat, John a'r teulu yn eu profedigaeth.

Ddechrau'r mis bu farw Mr Alun L. Williams, Tan y Bryn. Estynnir ein cydymdeimlad â Mair a'r teulu yma hefyd yn eu profedigaeth hwythau.

CLWB IEUENCTID. Mae Clwb Ieuenctid Bethel yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos yn y Neuadd Bentref am ddwy awr o 7.30 o'r gloch tan 9.30 bob nos Lun a nos Iau. Mae'r clwb yn agored i bawb sydd yn yr ail flwyddyn yn yr ysgol uwchradd i fyny i 19 oed ac yn cynnig rhaglen amrywiol o fewn y clwb yn ogystal â thripiâu allan o'r clwb. Yn ogystal, bydd yr aelodau yn cymryd rhan mewn cystadlaethau a gweithgareddau rhanbarthol, e.e. pêl-droed (a phob math o chwaraeon eraill), cwis, Yr Ŵyl Gelf, sy'n rhoi'r cyfle i chi ddod i adnabod a gwneud ffrindiau â phobl ifanc eraill ardal Arfon.

Dewch i ymuno â ni yng Nghlwb Ieuenctid Bethel i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chwaraeon fel coginio, badminton, disgo, gwaith crefft, gweithdai gitâr a llawer mwy ac i gael y cyfle i fynd ar dripiâu i Deeside i sglefrïo neu i Alton Towers am ddiwrnod o hwyl.

Cysylltwch â Llinos Griffiths (01286 650521) neu Bethan Jones (01286 678535) am fwy o wybodaeth.

YSGOL BETHEL

Cymhorthydd Clerigol
(Rhan Amser)

i gychwyn 27 Mawrth 2000
(neu cyn gynted â phosib wedyn)
12 awr yr wythnos
tymhorau ysgol a hyd at
2 ddiwrnod ychwanegol

£2,389 - £3,218
(21 oed £2,562)

Cysyllter â'r Pennaeth am
ffurflen gais gan ei dychwelyd
i'r ysgol erbyn
Dydd Iau, Mawrth 16, 2000

Y gallu i gyfathrebu yn
Gymraeg a Saesneg
yn angenrheidiol

DRAENOG

A hithau newydd ymddeol roedd gwraig o Ddeiniolen yn gweld fod ganddi ddigon o amser i wneud gwledd ar ddydd Mawrth Crempog eleni. Prynodd yr holl gynhwysion a dechrau ar y gwaith un bore Mawrth — DAIR WYTHNOS YN RHY FUAN!

Y flwyddyn nesaf NA Ni'ch atgoffa o'r diwrnod cywir.

Agor Co-op Deiniolen - Medi 19, 1932



Yn yr ardd!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo


Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMBOL

AM OFFER Tŷ A GARDD ...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501



A fydddech chi'n pleidleisio i'r ddau yma?

Dilynwch hynt a helynt

"Aelodau'r Cynulliad",

Wyndham Mainwaring a R LI Hughes,

yn nrama gomedi newydd S4C,

Yr Asembli.

Yr Asembli

8.30

Bob Nos Iau

Yn eyschwyn 30 Mawrth

www.s4c.co.uk

S4C

Cyfle Newydd i Gymru Ddathlu Darllen



Mawrth 10, 2000 yw'r dyddiad a glustnodwyd i ddathlu Diwrnod y Llyfr eleni, sef achlysur arbennig yn dathlu llyfrau a darllen a fydd, diolch i grant o £160,000 gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn hyrwyddo darllen yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf.

Fe fydd Diwrnod y Llyfr, a drefnir gan Gyngor Llyfrau Cymru, yn gyfle i hybu llyfrau trwy weithgareddau amrywiol a chyffrous a gynhelir mewn ysgolion, llyfrgelloedd a gweithleoedd ledled Cymru.

Mae'r fenter yn dilyn llwyddiant Blwyddyn Darllen Genedlaethol Cymru a Diwrnod y Llyfr y llynedd, pryd y cynhaliwyd sawl ymgyrch lwyddiannus. Profodd y cynllun i enwebu hoff lyfrau'r ugeinfed ganrif yn boblogaidd iawn gyda'r cyhoedd, a chyhoeddwyd dros 300,000 o docynnau llyfrau

mewn papurau newydd a chylchgronau.

Eisoes mae nifer o ddigwyddiadau ar y gweill ar gyfer Diwrnod y Llyfr, gan gynnwys cynllun i ddanfôn 'pytiau' o lyfrau dros y we i roi blas i bobl o'u cynnwys, a threnau llyfrau a fydd yn cludo plant ac awduron ar deithiau i fyd dychymyg.

Dyweddodd Gwerfyl Pierce Jones, Cyfarwyddwr Cyngor Llyfrau Cymru, 'Rydyn ni'n falch dros ben i barhau â'r gwaith da a gyflawnwyd y llynedd.

'Bydd y Cyngor yn edrych ar ddulliau cyffrous a blaengar o ledu'r gair i bob rhan o'r gymuned bod darllen yn hwyl, ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda'n partneriaid ym myd addysg, lyfrgelloedd a'r fasnach lyfrau.'

Tlws John a Ceridwen Hughes

Daeth yr amser unwaith eto i ni ystyried enwau ar gyfer y tlws uchod. Fel y cofiwch, mae'r Urdd wedi derbyn cynnig caredig y teulu i gyflwyno tlws bob blwyddyn yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ieuenctid Cymru.

Hoffwn dynnu eich sylw at y pwyntiau canlynol:

1. Gellir ystyried rhywun sydd wedi cyfrannu at waith ieuenctid yn y gorffennol ond sydd wedi rhoi gorau iddi erbyn hyn yn ogystal, wrth gwrs, â rhai sydd yn dal i weithio gyda phobl ifanc.
2. Derbynnir enwebiadau gan unigolion neu fudiadau neu bwyllgorau.
3. Ni fyddwn yn cysylltu ag unigolion nes iddo/iddi gyrraedd y rhestr fer.
4. Gofynnir i chi ddefnyddio'r ffurflen enwebu briodol sydd ar gael o'r cyfeiriad isod.

Dylid ystyried y pwyntiau isod wrth enwebu unigolion:

1. Dylai'r gwaith fod trwy

gyfrwng yr iaith Gymraeg neu'n ymwneud â ieuenctid sy'n dysgu'r iaith.

2. Dylai fod yn waith gwirfoddol.

3. Dylai fod yn waith wyneb yn wyneb â phobl ifanc dros 11 oed a thu allan i gyfundrefn addysg ffurfiol.

4. Derbynnir enwau pobl sydd yn gweithio gyda ieuenctid ar hyn o bryd neu bobl sydd wedi cyfrannu at y gwaith hwn yn y gorffennol.

5. Gall fod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuenctid (diwylliannol, corfforol, dyngarol, cymdeithasol, gyda phobl anabl, gyda dysgwyr, rhoi cyfle i ieuenctid gyfrannu, gwaith awyr agored, cyfnewid ac yn y blaen).

6. Gall fod yn waith gydag unrhyw fudiad ieuenctid.

Gellir cael mwy o wybodaeth drwy gysylltu â Swyddfa'r Urdd yn Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth. Ffôn: (01970) 623744.



WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Coleg Cymuned

Y newyddion diweddaraf o Goleg Menai


Syrpreis Pen-blwydd Arbennig i Rheon!

Llongyfarchiadau i Rheon Roberts ar ennill gwobr Data Cyrchfan Coleg Menai 1999. Mae Rheon, 19, sy'n huanu o Lanberis yn fyfyrwr ar y cwrs HND Peirianeg a chafodd wybod ei fod wedi ennill y sic ar ddiwrnod ei ben-blwydd!

Cyflwynwyd sic o £100 i Rheon gan y Dirprwy Bennaeth, John Griffith, yn ddiweddar. Mae'r wobwr hon yn cael ei chyflwyno'n flynyddol yn dilyn

anfon holiaduron i gyn-fyfyrrwyr i ddarganfod pa drywydd y maent wedi penderfynu ei ddilyn ar ôl cwblhau eu hastudiaethau yma yn y coleg. O'r rhai sydd yn ymateb i'r holiaduron, yr enw cyntaf allan o'r het sydd yn ennill y sic.

Roedd Rheon yn fyfyrwr ar y cwrs CGCC Peirianeg y llynedd ac mae wedi penderfynu aros yma yn y coleg a symud ymlaen i ennill cymwysterau pellach yn y maes. Pob lwc iddo ar gyfer y dyfodol.



Rheon yn derbyn ei sic gan Ddirprwy Bennaeth Coleg Menai, John Griffiths.

Cwpan Cymru i Bêl-droedwyr Coleg Menai

Roedd myfyriwr o Ddinorwig yn aelodau o dîm pêl-droed 5-bob-ochr y coleg a sicrhodd fuddugoliaeth go arbennig yn ddiweddar wrth iddynt drechu Coleg Llandrillo 2-1 yn rownd derfynol cystadleuaeth Colegau Cymru, gan eu gwneud yn bencampwyr pêl-droed 5-bob-

ochr Chwaraeon Colegau Cymru 1999.

Bydd Iwan Jones a gweddill y tîm yn mynd ymlaen i gynrychioli Cymru ym Mhen-campwriaethau Cenedlaethol Colegau Prydain 2000 yn Blackpool ym mis Mawrth.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd


Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

Atgyweirio'r olwyn ddŵr fwyaf ar dir mawr Prydain



Ym mis Chwefror, bydd un o'r olwynion dŵr mwyaf a adeiladwyd gan ddiwydianwyr oes Fictoria, sef yr olwyn ddŵr yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, yn rhoi ei holaf dro er mwyn gallu gwneud gwaith atgyweirio a chadwraeth hanfodol a gymer rai wythnosau i'w gwblhau.

Chafodd yr olwyn ddŵr, sy'n 15.4 metr mewn diamedr, ac a welir yn yr Amgueddfa yn Llanberis, yn hen weithdai Chwael Dinorwig, ei hadeiladu gan gwmni De Winton o Gaernarfon ym 1870. Byddai dŵr i yrru'r olwyn yn cael ei bibellu i lawr ochr yr Wyddfa mewn pibellau haearn bwrw 61cm mewn diamedr, ac yna câi'r pŵer ei drosglwyddo i amrywiaeth gymhleth o beiriannau o'r 19eg Ganrif a wasanaethai anghenion Chwael Dinorwig, y bu ci llechi'n rhoi to dros Brydain Ddiwydiannol.

Roedd yr olwyn yn dal i weithio hyd 1925, pan ddisodlwyd hi gan olwyn Felton, olwyn lai a mwy effeithiol. Yn ffodus, fodd bynnag, ni ddinistriwyd yr hen olwyn fawr, ac fe'i hachubwyd gan staff yr Amgueddfa ym 1977. Bellach, gellir clywed ei sŵn yn atseinio unwiath eto drwy weithdai'r Amgueddfa.

'Yr olwyn ddŵr hon yw un o


atyniadau pennaf Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis,'meddai Dafydd Roberts, Ceidwad yr Amgueddfa. 'Gyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri ym 1997 llwyddwyd i adeiladu lift newydd gan ein galluogi i ddangos yr olwyn i'n holl ymwelwyr. Yn awr, mae'n rhaid gwneud peth gwaith atgyweirio ar y gwaith peirianegol gwyh hwn er mwyn iddo allu goroesi.'

Bydd y gwaith atgyweirio ac adfer yn cael ei wneud gan Dorothea Restoration Engineers o Stockport, sy'n arbenigwyr yn y maes, o dan oruchwyliath Peirianwyr Posford Duvivier o Gaernarfon. Bydd yn rhaid gosod bwcedi newydd yn lle rhai o'r hen fwcedi ar yr olwyn — mae 140 ohonynt i gyd — a bydd angen glanhau ac ailbaentio'r lleill. Bydd yn rhaid gwneud gwaith cadwraeth ar y tanŵ dŵr anferth uwchben yr olwyn a hefyd ar y pibellau sy'n cario dŵr i ben yr olwyn.

Cychwynodd y gwaith ddechrau mis Chwefror 2000 a dylai fod wedi'i gwblhau erbyn tymor yr haf.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwr**

CROESAIR MAWRTH



ENW.....

CYFEIRIAD.....

.....CÔD POST.....

Mae'r chwe ateb di-gliw yn gysylltiedig â'r ffaith fod y pump, am y tro cyntaf eleni, yn chwech.

Ar Draws:

1. Planhigion gwenwynig yn lladd deg ci! (5)
7. Man lle dodir tail anifeiliaid (5)
10. Caniadau hir mewn cynghanedd (6)
11. Ffurf ar rediad berf i fynegi gwahanol adegau (5)
12. Yr arian a ddaw o bocedi'r preswylwyr (4)
14. Rhoddion i rai tlawd (9)
17. Ymbilio am bleidlais (8)
20. Set o dri bonyn gydag un llai drostynt (5)
22. Planhigion y gors... (5)
23. ... a choed bytholwyrdd o lecyn a ddinistriwyd. (5)
24. Gafael yn eithriadol o dynn (8)
26. Cenfeintiau (8)
28. I gloi'r weddi (5,4)
30. Cymell ei gilydd (7)
33. Cyfeiriad dail y gwymon? (4)
34. Ystafell dan y ddaear (5)
36. Cryshau (5)
37. Glaswellt wedi ei dorri a'i sychu. (5)
38. Gadael argraff o unman (5)

I Lawr:

1. Sŵn isel aflafar brân neu lyffant. (5)
2. Gwacledion (7)
3. Torcithiog - dim o lawr dach heb ddim! (9)
5. Ednod (4)
6. Daw icimlad gwefreiddiol o lais crynedig (5)
8. Calarnadol (9)
9. Cynnodau tywyll (5)
13. Mae'n ffriddgar mewn safle gref (3)
16. Offer i rannu'r mawr oddi wrth y bach! (6)

17. Torf afreolus a stwrlyd (5)
18. Mae un y mileniwm ger yr afon yn Llundain (6)
19. Toi (5)
21. Teithwyr ar droed (9)
23. Yr oeddem yn adnabod... (9)
25. 'O!---, O!--- yr hyfryd wawr ar led!' (5)
29. Atgoffa rhywun am ei fai (5)
31. Dillad isaf merched neu raddedigion (5)
32. Newid cyfeiriad (4)

CROESAIR CHWEFROR

Derbynias atebion i groesair Chweffror gan Gwen Davies, Neston, S. Wirral; Catherine A. Jones, Rhiw; M.P. Jones, Clynnog; Nan Owen, Llanberis; Jean Hughes-Jones, Rhiw; E.E. Jones, Rhoshirwaun; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Olwen Owen, Llanberis; Mabel Parry, Porthmadog; G. Gill, Bangor; Elfed Evans, Llanllechid; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; N. Hughes, Cwm-y-glo; Alice Griffiths, Dinorwig; Margaret Wyn Roberts, Caernarfon; Cridwen Williams, Llanrug; Rosemary Williams, Tregarth; Chris Roberts, Llanrug; Olwen Jones, Bethel; Eluned Jones, Trefor; Jennie Williams, Clynnog; Ceinwen Williams, Bethel; Nans Davies, Rhuthun; E.P. Jones, Nantmor; I. Jones, Borth y Gest; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Dorothy Jones, Llanrug; Eirwen Roberts, Tregarth; Moreen Lennon, Llanberis ac enillydd y mis sef Mrs Mair Evans, Gwynle, 31

DYDDIADUR MAWRTH

1. Mer. **Dydd Gŵyl Dewi.**
2. Iau. **DINORWIG:** Cinio'r Gymdeithas Lenyddol yn Llanfairpwllgwyngyll.
WAUNFAWR: Sefydliad y Merched. Sgwrs gan Meirion Hughes, Caernarfon.
3. Gwe. **DEINIOLEN:** Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd yn Ebeneser am 2 o'r gloch.
LLANRUG: Dydd Gweddi'r Chwiorydd yng Nghapel Hermon am 2 o'r gloch.
DINORWIG: Dydd Gweddi'r Chwiorydd yn y Ganolfan am 2 o'r gloch.
LLANBERIS: Dydd Gweddi'r Chwiorydd yn Nant Padarn am 7 o'r gloch.
DEINIOLEN: Cinio Merched y Wawr yng Ngwesty Macsen, Caernarfon.
6. Llun. **DEINIOLEN:** Cinio Gŵyl Dewi Cymdeithas Eglwys Llandinorwig gyda Mr J.M. Griffith, Bethel.
BRYNREFAIL: Cinio Gŵyl Dewi Sefydliad y Merched.
8. Mer. **BETHEL:** Swper Gŵyl Dewi Merched y Wawr.
13. Llun. **DEINIOLEN:** Y Cyngor Eglwys yn Ffestri Cefnywaun o dan arweiniad y Parch John Pritchard.
14. Maw. **LLANRUG:** Merched y Wawr. Dathlu Gŵyl Dewi.
21. Maw. **Cyngor Cymned Llanddeiniolen** yn Neuadd Penisarwaun.
27. Llun. **DEINIOLEN:** Y Gymdeithas Lenyddol gyda Mr Arwel Jones, Penisarwaun.

RHAG HYSBYSIAD

Merched y Wawr

Ebrill 5: Sioe Ffasiwn, Gwesty'r Celt, Caernarfon

Ebrill 15: Cinio'r Llywydd Cenedlaethol, Llandudno.

Mai 12: Gŵyl y Pum Rhanbarth, Bangor.

RHODDION

£10: Mrs Elizabeth Lynes, Snowdon View, Fachwen; Mr a Mrs Gwynn Davies, Bryn Eithin, Waunfawr.

£5: Mrs Eirlys Jones, Gwynant, Penisarwaun; Mr a Mrs Wilbert Williams, Marino, Brynrefail; Mrs Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen, Waunfawr; Merfyn Hughes, Clawdd Newydd, Llanrug; Mrs Carrie Hughes, Ffordd Padarn, Llanberis; Mrs Mair Williams, Elidir View, Cwm-y-glo; Robert Owen ac Eleanor May Williams, 41 Rhydfadog, Deiniolen.

£3: Mrs Williams, 25 Hafan Elan, Llanrug; Mrs D. Jones, 18 Hafan Elan, Llanrug; Meirion Angharad, Arlys, Stryd y Ffynnon, Llanberis; Robin Owen, Bethel.

£2: Bethan a Macari, Deiniolen; Teulu y ddiweddar Buddug Iolen Griffith, Llanfaircaer-einion.

PEIDIWCH A GORI


AR STORI —

ANFONWCH HI I'R ECO

Ffordd Bethel, Caernarfon LL55 1DY. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Doedd pob un o'r 31 ymgais ddim yn hollol gywir ond roedd y chwe gair nad oedd cliwiau iddynt yn gywir gan bawb. Ardderchog.

Ar ôl cwblhau croesair Mawrth gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Mawrth 20.





PATAGONIA
10 - 28 Ebrill, 2000

Taith tair wythnos i grŵp o 10
Cyflwyniad i'r daith gan
Hywel Gwynfryn

RHYS MEIRION
yn y 'Pysgotwyr Perl' (Pearl Fishers)
Coliseum, Llundain. Ebrill 15 - 16

24 Gorffennaf - 8 Awst
BRISBANE, AWSTRALIA
yng nghwmni Timothy Evans (Llambod) ac Annette Bryn Parry

STEPS — Manchester Arena — Mai 29
Manylion pellach (01286) 872777

CHWARAEON

Dallas, Goodison a Mathews

Yn Nulyn yr oeddwn i pan glywais am farwolaeth Stanley Mathews. Roeddwn yn Stadiwm Dalymount, cartref clwb y Bohemians, i chwarae ein gêm flynyddol rhwng y Gwyddelod â thîm o'r ysgol acw. Yn yr ystafell gwobrwyon ym Mharc Dalymount, mae llun o dîm Lloegr yn y 50'au — yn cynnwys Mathews — a chwaraeodd dîm y Weriniaeth. Dechreuais yr erthygl hon drwy nodi ble roeddwn i pan glywais am farwolaeth Mathews. Y rheswm yw'r cysylltiad personol gyda'r cwestiwn yr arferid ei ofyn yn rheolaidd, 'Ble roeddech chi pan fu farw Kennedy?' Enwau o'r gorffennol erbyn hyn ond y mae cysylltiad agos rhwng y ddau ddigwyddiad i mi. Mae'r cysylltiad yn troi o gwmpas un dydd Sadwrn arbennig yn 1963, yn ninas Lerpwl.

Roedd trip ysgol wedi ei drefnu o Ysgol Dyffryn Ogwen i'r ddinas yn benodol i weld y ddrama 'The Entertainer' yn un o'r theatrau. Seren y diwrnod i fod oedd Lawrence Olivier yn chwarae rhan Archie Rice. Efallai fod yr athro Saesneg ar y pryd yn meddwl y buasai'r 'howgets' yn elwa o weld un o'r mawrion — ac yn wir roedd yn wefr. Fel y trodd hi allan, 'seren' arall gamodd i ganol y llwyfan y Sadwrn hwnnw. Am ryw reswm, roeddem wedi cyrraedd Lerpwl ganol dydd ac nid oedd y perfformiad yn cychwyn tan saith yr hwyr. Diolch am weledigaeth un o'r athrawon ar y daith; nid wyf yn cofi o pwy oedd o ond diolch am y fflach. Penderfynwyd y buasai'r athrawesau yn mynd â'r merched am daith i weld rhai o atyniadau Lerpwl — Lewis's, Owen Owens ac yn y blaen. Un dewis gafodd y bechgyn! Myny i Barc Goodison i weld Everton yn chwarae Stoke City yn yr adran gyntaf. Am y tro cyntaf yn fy mywyd, yn 15 oed, roeddwn mewn gêm bêl-droed fawr, ymysg torf o 45,000.

Yno roedden ni ymysg y môr o lās ar derasau Stryd Gwladys — môr wahanol yw'r Goodison llawn seddau erbyn hyn. Yr oedd drama y prynhawn ar fin cychwyn. Y dyddiad — y Sadwrn wedi i JFK gael ei lofruddio yn Dallas.

Fel ym mhob macs chwarae drwy Brydain y Sadwrn hwnnw cynhaliwyd munud o dawelwch. Yn Goodison parhaodd y 'tawelwch' am 20 ciliad! O rywlc ar y terasau uwch ein pennau daeth un flocdd 'Long live Khrushchev!'. Yng nghanol yr holl dawelwch yr oedd yr un llais mor glir â'r bloeddio cynulleidfaol a

glywir heddiw. Ffrwydrodd y teras. Gafaelwyd yn y gŵr a'i daflu dros y dorf yn ddiseremoni a'i ollwng fel sach o datws ar y trac ymarfer a ymgylchynai Goodison y cyfnod hwnnw. Yna cymerodd heddlu di-seremoni Lerpwl drosodd. Llusgwyd y gŵr o gwmpas y maes, gan dderbyn ambell slap ar y ffordd, ac i lawr y twnel, a'r dorf i gyd yn cefnogi yr heddlu.

Dychmygwch y sefyllfa yna heddiw. Camdrin unigolyn am fynegi barn wleidyddol! Yr unig beth a gofias yw fod y gŵr hwnnw wedi ei wahardd o bob maes pêl-droed am oes! Tybed a

i'w barhau ar dud. 14

Pigion wrth basio

Efallai eich bod yn meddwl fod Alun Vaughan, y rheolwr dawnus o Lanberis wedi ymddeol o'r gamp. Nag ydi, wir! Mae yn dal i gystadlu, ond ar ochr arall y byd. Ar hyn o bryd mae Alun draw yn Seland Newydd ac yn dal i gystadlu mewn rاسus safonol. Yn ddiweddar, rhedodd yn ras mynydd Te Aroha yn Seland Newydd a daeth yn bedwerydd. Efallai y cawn erthygl am ei rاسus tramor pan ddaw adref nesaf.

* * *

Ar y ffordd adref o'r gêm ddartiau ym Montnewydd, a Dylan, un o'r tîm yn siarad ar y ffôn symudol â'i fêf Eifion. Neb yn cymryd sylw. Yna Dylan yn dweud fod ail dîm Lerpwl wedi curo ail dîm Barnsley o 3-0. Roedd Eifion wedi chwarae hanner gêm, a chymryd lle Dominic Matteo. Ie siŵr, Eifion Jones, Llanrug, sy'n gwneud

camau breision draw ar Anfield wedi ei anaf diweddar. Dyna esbonio Matteo (Jones) a ymddangosodd yn y Daily Post. Gyda Mark Hughes yn sôn am adeiladu tîm ieuanc newydd, gobeitho y bydd Eifion yn cyrraedd y nod.

* * *

Cefais fynd i Stadiwm y Mileniwm o'r diwedd. Ydi, mae'n brofiad gwefreiddiol. Gallwn ymfalchïo yn y gamp o gynhyrchu y fath gartref chwaraeon. Colli un, ennill un yw fy record yno hyd yn hyn. Gyda llaw, braf yw sylwi ar y cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r iaith Gymraeg ar ddiwrnod rhyngwladol erbyn hyn.

Newyddion o fyd y campau i'w anfon at y Golygydd (01248 670115)

Rygbi 7-bob-ochr



Y sgwad: Chris Holdsworth, Mark Templeman, Mathew Roberts, Mark Williams, Owain Williams, Willie Mullane, Shaun Humphreys, Clifford Jones, Huw Evans.

Cynhaliwyd cystadleuaeth rygbi 7-bob-ochr Ysgolion Gogledd Cymru i fechgyn blwyddyn 11 ym Mae Colwyn ar ddydd Mercher, Chwefror 16. Dyma'r tro cyntaf i Ysgol Brynrefail gystadlu yn y gystadleuaeth yma yn erbyn dros 20 o ysgolion eraill.

Gosodwyd yr ysgol mewn grŵp gydag Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch ac Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Pan ddarganfu ein bechgyn ni mai yn erbyn Syr Hugh roedd y gêm gyntaf yr oedd fel cystadluacath a fewn cystadleuaeth, gyda mwy na buddugoliaeth yn y fantol. Er bod y ddau dîm yn adnabod ei gilydd yn dda gan eu bod i gyd yn chwarae i glwb Caernarfon, nid oedd neb yn dal yn ôl yn y taelo.

Cafwyd hanner cyntaf cyffrous gydag Ysgol Syr Hugh Owen ar y blaen o 10 i 7 ar hanner amser. Ond yn yr ail hanner yr oedd cyflymder Shaun Humphreys a Clifford Jones a thaelo grymus Mark Williams, Huw Evans a Willie Mullane yn ormod i dîm y dre a chafwyd buddugoliaeth o 21 i 17. Yr oedd y flocdd gan y tîm ar y chwiban olaf yn awgrymu cu bod wedi ennill y gystadluacath.

Ar ôl y fuddugoliaeth yma yr oedd hyder yr hogia wedi codi a thrcehwyd ysgol Syr Thomas Jones yn hawdd o 24-0, gyda cheisiadau gan Mathew Roberts, Mark Williams, Willie Mullane ac Owain Williams.

Acth yr ysgol ymlaen i rownd yr 8 olaf fel pencampwyr eu grŵp i chwarae Ysgol Eirias.

Chwaraewyd y gêm yma ar gae rhif 3 a oedd yn debycach i gors. Nid oedd blewyn o wellt glas i'w weld. Yr oedd hyn yn siwtio tîm trymach Ysgol Eirias ac yn anffodus collwyd y gêm o 19-5.

Yn bendant, ar dir sych, gyda'i rhedwyr cyflym buasai Ysgol Brynrefail wedi ennill y gêm. Felly mae'n rhaid gofyn pam bod y gystadleuaeth yn cael ei chynnal ym mis Chwefror. Yr ydym fel arfer yn cysylltu gemau 7-bob-ochr â thywydd braf a thir sych misoedd y Gwanwyn. Gêm a digon o redeg a phasio yw 7-bob-ochr i fod ond yn y mwd yr oedd yn amhosib.

Er hynny mae'n rhaid canmol perfformiadau y bechgyn a melys oedd y fuddugoliaeth yn erbyn Ysgol y Dre.